



‘Überall Luthers Worte’, Martin Luther a’i ddylanwad ar wrth-Semitiaeth
y Natsïaid.

Hannah Joy Howells

1600338

BA Astudiaethau Crefyddol

Traethawd Hir: HPRS6012C

40 Credyd

Tystiaf mai fy ngwaith fy hun yw'r traethawd/prosiect hwn; cydnabyddir yn
llawn yn y cyfeiriadau unrhyw ddefnydd a wneir o waith pobl eraill.

Cyfrif Geiriau: 10,054

H J. Howells

Crynodeb

Mae Martin Luther (1483-1546) yn parhau i fod yn ffigwr croesebol a chymleth ac nid oes modd gorbwysleisio ei effaith ar hanes modern Gorllewinol. Ymhlith yr agweddau mwyaf dadleuol o weithiau Luther yw ei bersectif amheus o'r Iddewon. Roedd y Luther ifanc wedi gweld yr Iddewon fel hynafiaid crefyddol Cristnogaeth ac oherwydd hynny, roedd Luther yn annog ei chenedl-ddynion i ddangos cariad Cristnogol at yr Iddewon gyda'r gobaith y byddai'r Iddewon yn derbyn bedydd. Gwelwn drobwynt yn ei agwedd wrth i'r Iddewon beidio troi at Gristnogaeth, lle yn ddiweddarach, cyhoeddodd Luther datganiadau deifiol wrth-Iddewig a oedd yn wir wedi cyffwrdd ag agweddau wrth-Semitaidd. Defnyddiodd Luther iaith ffiائد wrth annog erledigaeth erbyn yr Iddewon trwy alw am yr arwahanrwydd a gwaharddiad o'r Iddewon oddi wrth y gymuned Almaeneg.

Felly, sut yr ydym yn symud o agweddau wrth-Semitaidd Luther, i fod o fewn cyd-destun gwrth-Iddewig, i wrth-Semitiaeth y gyfundrefn Natsiaidd? Gellir dadlau bod Luther fel ffigwr dylanwadol yn hanes yr Almaen, wedi cael ei ddefnyddio i chwarae rôl hanfodol wrth ddilysu hawliad Hitler a'u Natsiaid i weithredu casineb wrth-Semitaidd tuag at yr Iddewon. Roedd y gyfundrefn Natsiaidd wedi defnyddio ysgrifau erchyll Luther am yr Iddewon o'r unfed ganrif ar bymtheg fel modd o ennill cefnogaeth yr Eglwys trwy gyfiawnhau polisïau a gweithredai'r Natsiaid i ymyleiddio, aflonyddu a dinistrio Iddewon yr Ugeinfed ganrif.

Cynnwys

Crynodeb	1
Pennod 1: Cyflwyniad	3
Pennod 2: O Heddwch i Heintiau	4-13
2.1: <i>Ganwyd Iesu Grist yn Iddew (1523)</i>	4-6
2.2: Pethau'n Troi'n Chwerw.....	6-7
2.3: <i>Am yr Iddewon a'u Celwyddau (1543)</i>	7-8
2.4: Saith Awgrym Eithafol.....	8-9
2.5: <i>Vom Schem Hamphoras</i>	9-10
2.6: Gwrth-Iddewiaeth a/neu Gwrth-Semitiaeth?.....	10-12
2.7: Dylanwad Luther am yr Iddewon ar ei gyfoeswyr a Christnogion hyd at ddyfodiad y Natsïaid.....	12-13
2.8: Casgliad y Bennod	13
Pennod 3: Cwblhau'r Diwygiad Protestannaidd yn y Trydydd Reich	14-26
3.1: <i>Mein Kampf (1925)</i>	15
3.2: Hitler yn Dod i Rym.....	15-16
3.3: Dylanwad Luther ar Bropaganda Natsïaid.....	16-19
3.4: Hitler a'u Natsïaid Swyddogol.....	19-20
3.5: Dylanwad Luther ar Weithredoedd y Natsïaid.....	20-23
3.6: Yr Eglwys Brotestannaidd yn y Trydydd Reich.....	23-25
3.7: Casgliad y Bennod.....	25-26
Pennod 4: Casgliad	27-28
Llyfryddiaeth	29-33

Pennod 1

Cyflwyniad

Mae'n bwysig cydnabod bod hanes Cristnogaeth wedi dangos elfennau amrywiol o wrth-Iddewiaeth sydd wedi ffinio ar agweddau gwrth-Semitaidd. Dros y canrifoedd, mae'r agweddau yma tuag at yr Iddewon wedi arwain at ormes ac erledigaeth a hefyd, mwy na dim arall, at hil-lofruddiaeth yr Iddewon o dan law'r Natsïaid. Yn bennaf oll, y person sydd wedi cael ei gyhuddo o hybu gwrth-Semitiaeth o'r fath yw Pensaer y Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen, Martin Luther. Mae Christopher Probst yn pwysleisio nad oedd Luther yn sicr wedi dyfeisio gwrth-Semitiaeth, ond ni all unrhyw un drafod y cwestiwn o wrth-Semitiaeth Gristnogol heb gyfeirio at Luther.¹

Amcan y traethawd hir yma yw edrych o'r newydd ar swyddogaeth Luther gyda golwg benodol ar y drafodaeth o'r berthynas rhwng ei syniadau a'r rhai o'r blaid Natsïaid. Trwy gydol fy nhraethawd hir, rwyf wedi defnyddio cyfuniad o ffynonellau gwreiddiol a ffynonellau eilaidd, sydd wedi fy helpu dadansoddi meddyliau gwreiddiol Luther a'r Natsïaid ac ymatebion ysgolheigion i'r pwnc. Y nod yw dangos dylanwad Luther ar wrth-Semitiaeth y Natsïaid a'r ffordd yr oedd Hitler yn gallu defnyddio Luther fel modd o atgyfnerthu eu rhethreg wrth-Semitaidd.

O ran cynnwys y traethawd hir, pwrpas pennod dau yw dadansoddi meddyliau gwreiddiol Luther ar yr Iddewon. Mae'r bennod yma yn hollbwysig er mwyn ceisio gwerthuso, i ba raddau yr oedd ei weithiau wedi dylanwadu ar weithredoedd, polisïau a phropaganda Natsïaid mewn cyfnod diweddarach. Mae pennod tri yn angenrheidiol i'r traethawd hir gan ei fod yn dadansoddi'r cysylltiadau rhwng Luther a Hitler. Nod pennod tri yw dangos sut roedd Hitler a'u Natsïaid wedi manipwleiddio gwaith Luther am eu rhesymau hiliol o gasáu'r Iddewon, trwy roi nifer o esiamplau sut roedd Luther wedi cefnogi'r erledigaeth yma erbyn yr Iddewon. O ran casgliad, y bwriad yw cynnig dadansoddiad, a ydym yn gallu priodoli Luther i wrth-Semitiaeth y Natsïaid? Dod yn ôl i'r ddadl a yw agweddau negyddol Luther yr un peth â rhai Hitler, ynteu a yw un yn wrth-Iddewig a'r llall yn wrth-Semitaidd?

¹ Christopher J. Probst, *Demonizing the Jews: Luther and the Protestant Church in Nazi Germany* (Indiana: Indiana University Press, 2012), t. 3.

Pennod 2

O Heddwch i Heintiau

Mae cyfraniadau Luther i hanes Cristnogaeth a diwinyddiaeth yn hollbwysig; yn wir yr oedd wedi siapio hanes crefydd yn yr Almaen. Y testun o Luther a'i pherthynas gydag Iddewiaeth ac yr Iddewon yn un cymhleth. Mae unrhyw drafodaeth ar dynged yr Iddewon Ewropeaidd angen cynnwys safbwyntiau Luther, yn enwedig am fod rhai yn credu bod hil-laddiad yr Iddewon Ewropeaidd rhwng 1933 a 1945 yn deillio yn uniongyrchol o athrawiaeth Luther, a'i fod yn bosibl olrhain cysylltiad agos rhwng Luther a Hitler.² Mae'n hollbwysig dadansoddi dogfennau a ysgrifennodd Luther am yr Iddewon i geisio deall paham y cyhoeddodd y dogfennau yma. Rhaid ceisio archwilio pam y newid yn agwedd Luther tuag at yr Iddewon o geisio galw am heddwch gyda'r Iddewon i alw'r Iddewon yn bla a galw am eu halltudio'r fel heintiau o'r wlad.

2.1: *Ganwyd Iesu Grist yn Iddew (1523)*

Cyfraniad cyntaf Luther am yr Iddewon oedd yn 1523 pan gyhoeddodd ysgrif oedd yn dwyn y teitl *Ganwyd Iesu Grist yn Iddew*. Pwrpas yr ysgrif yma oedd trafod polisiau annheg yr Eglwys tuag at yr Iddewon dros y canrifoedd. Roedd yr ysgrif yn ceisio gwarchod hawliau'r Iddewon trwy annog Cenedl-ddynion i barchu'r Iddewon gan eu bod yn perthyn i Grist. Er mai ysgrif fer yw hon, roedd goblygiadau'r ysgrif yn chwyldroadol.³ Mae Luther yn pledio â'r gymuned Gristnogol i ddelio â'r Iddewon yn ofalus ac i'w hatgoffa o gynnwys yr Ysgrythurau. Roedd Luther yn cydnabod bod yr Iddewon wedi cael eu cam-drin gan arweinwyr Catholig yr Eglwys, gan ddweud eu bod wedi trin yr Iddewon fel cŵn yn hytrach na bodau dynol.⁴

Yn yr ysgrif hon, mae Luther yn ceisio amddiffyn ei hun drwy esbonio ei brif fwriad, sef ceisio annog yr Iddewon i dderbyn 'goleuni' Cristnogaeth. Mae Luther yn datgan yn glir yn ei frawddeg agoriadol mai nod yr ysgrif yw denu nifer o Iddewon i'r ffydd Gristnogol. Mynega Luther yn hyderus mai ei astudiaeth fanwl ef ei hun o'r Beibl a'i gred yn yr Ymgawdoliad sydd yn mynd i lwyddo i gael argraff briodol ar yr Iddewon.⁵ Roedd Luther yn argyhoeddedig

² Gerhard Falk, *The Jew in Christian Theology: Martin Luther's Anti-Jewish Vom Schem Hamphoras, Previously Unpublished in English, and other Milestones in Church Doctrine Concerning Judaism* (North Carolina: McFarland & Company, Inc Publishers, 1992), t. 55.

³ Graham Keith, *Hated without a Cause? A Survey of Anti-Semitism* (Carlisle: Paternoster Press, 1997), t. 151.

⁴ Keith, *Hated without a Cause?*, t. 151.

⁵ Gareth Lloyd Jones, *Lleisiau o'r Llundw: Her yr Holocaust i'r Cristion* (Dinbych: Gwasg Gee, 1994), t. 86.

y byddai'r Iddewon yn cael eu trin gyda chwarteisi pe baent yn clywed yr Efengyl yn cael ei phregethu yn rhydd o natur lygredig yr Eglwys Babyddol, ac na fyddai'n oedi bedydd. Mae Luther yn pwysleisio 'Rwy'n cynghori ac yn erfyn ar bawb fod yn gyfeillgar tuag at yr Iddewon a'u hyfforddi yn yr Ysgrythur; yna efallai y gwna rhai ohonynt ymuno â ni'.⁶ Roedd Luther yn gallu cydymdeimlo â'r Iddewon ac yn canmol Iddewon yr Almaen am wrthod beth oedd yr Eglwys Babyddol yn ei ddymuno ganddynt. Mae Gareth Lloyd Jones yn nodi ei bod yn amlwg fod y Luther ifanc yn gwbl sicr y byddai nifer fawr o Iddewon yn derbyn bod proffwydoliaethau'r Hen Destament yn cael eu gwireddu yng Nghrist y Protestaniaid ac yn 'cyrchu'n eiddgar i'r fedyddfan'.⁷

Roedd yr ysgrif hon yn cynnwys neges bositif a oedd yn ymgais i dawelu'r wrthblaid trwy ddangos bod Iesu Grist yn Iddew a anwyd o linach Abraham ac o'r forwyn Fair trwy'r Ymgnewdoliad, sef digwyddiad a ragfynegwyd gan broffwydi'r Hen Destament. Mae Luther yn egluro bod angen dangos cariad brawdol tuag at yr Iddewon er mwyn eu hachub a'u hargyhoeddi i droi yn Gristnogion.

'Y mae'n ofynnol i ni eu croesawu i'n mysg a chaniatáu iddynt gystadlu â ni, trwy roi gwaith a chartref iddynt yn y gymdeithas, er mwyn iddynt fwynhau bod yn ein cwmni, clywed ein dysgeidiaeth a phrofi'r ffordd Gristnogol o fyw. Os yw rhai ohonynt yn mynnu bod yn ystyfnig, beth am hynny? Wedi'r cwbl, nid yw pob un ohonom ni'n Gristion da chwaith'.⁸

Gwelwn agwedd amyneddgar Luther tuag at yr Iddewon yn y dyfyniad hwn. Yn amlwg ni fyddai pob Iddew yn cael eu denu gan eiriau'r ysgrif hon, ond roedd Luther yn cydnabod hyn gan ddatgan: os yw rhai ohonynt yn profi i fod yn ystyfnig, beth am hynny? Mae Luther yn pwysleisio y dylid trin yr Iddewon gyda chyfraith cariad y Cristnogion; nid yw Cristnogion yn foisol rhagori ar yr Iddewon.⁹ Mae Luther yn galw am fwy o integreiddio a mwy o gydweithredu gyda'r Iddewon. Apelia Luther, felly, am fwy o oddefgarwch, yn y gobaith y gallai'r Iddewon droi at Grist. Er gwaethaf ei naws genhadol, croesawyd yr ysgrif hon gan yr Iddewon. Roeddent yn ystyried Luther fel eu hamddiffynnydd, fel unigolyn oedd yn barod i

⁶ *That Jesus Christ was born a Jew*, Luther's works, Cyfr. 45 (Philadelphia: Fortress Press, 1962), t. 229.

⁷ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 87.

⁸ *That Jesus Christ was born a Jew*, Luther's works, Cyfr. 45, t. 229.

⁹ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 86.

frwydro dros eu hawliau ac yn dyfalbarhau i wella eu safon byw. Rhaid nodi bod rhai wedi hyd yn oed cyfeirio at Luther fel rhagflaenydd y Meseia.¹⁰

2.2: Pethau'n Troi'n Chwerw

Erbyn y 1530au, roedd agwedd Luther tuag at yr Iddewon yn ymddangos yn gwbl wahanol. Roedd dau brif reswm dros y newid hwn. Yn Awst 1536, dyma Ffredric, tywysog Saxony – ac unigolyn blaenllaw yn y Diwygiad – yn diddymu hawl yr Iddewon i fyw yn ei deyrnas a hyd yn oed yn eu gwahardd rhag teithio drwyddi. Rhaid cydnabod bod yr Iddewon wedi byw fel alltudion yn Ewrop am ganrifoedd lawer, a rhoddodd Ffredric statws ffoadur iddynt gan eu hymnid o'u cartrefi. Roedd Josel o Rosheim, un o rabiniaid amlycaf y ganrif, wedi ystyried Luther fel ffrind yr Iddewon a chyfaill y tywysog, ac felly aeth ati i geisio ei berswadio i newid ei feddwl. Gwrthododd Luther apêl Rosheim gan ddatgan nad ei ddyletswydd ef oedd amddiffyn hawliau'r Iddewon. Nid oedd Luther yn fodlon helpu'r Iddewon, meddai, am fod y genedl Iddewig wedi gwrthod troi at Grist.¹¹ Doedd dim rheswm pam y dylai Luther frwydro dros oddefgarwch yr Iddewon a hynny oherwydd eu hystyfnigrwydd. Dywed Jones: 'os oedd Luther y tridegau yn dechrau casáu'r Iddewon, erbyn diwedd ei oes yr oedd yn eu ffeiddio'.¹²

Ar ben hyn, clywodd Luther bod sect yn Morafia, sect a ffurfiwyd yn sgil y Diwygiad, wedi mabwysiadu arferion Iddewig megis y seremoni *Brit Milah*, sef enwaediad a chadw'r *Saboth*. Roedd y datblygiad o fewn y sect yma yn awgrymu i Luther fod Iddewon yn cenhadu ymysg Protestaniaid ac yn ceisio eu hargyhoeddi fod Cyfamod Sinai dal mewn grym.¹³ Dewisodd Luther gondemnio Iddewon Morafia ac ysgrifennodd llythyr agored i'w gyfaill Wolfgang Schlik, llythyr sydd yn dwyn y teitl, *Yn Erbyn y Sabathyddion* (1538).¹⁴ Yn y llythyr yma, mae Luther yn tynnu sylw at ystyfnigrwydd yr Iddewon a'u hamharoddrwydd i droi at Grist.¹⁵

Mae Luther yn tynnu sylw at y ffaith bod y Beibl yn datgan y bydd addewid Jerwsalem yn cael ei hadfer, a'r genedl Iddewig fel y bobl Etholedig yn dychwelyd i'w gwlad sanctaidd. Mae Deuteronomium 30:2-5, er enghraifft, yn datgan:

¹⁰ Am enghreifftiau, gweler Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 87.

¹¹ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 89.

¹² Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 89.

¹³ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 87.

¹⁴ *Against the Sabbatarians: Letter to a good friend*, Luther's Works, Cyfr. 47 (Philadelphia: Fortress Press, 1971), tt. 65-98.

¹⁵ I gael mwy o wybodaeth am y llythyr, gweler Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 88.

‘Os byddi’n troi’n ôl at yr Arglwydd dy Dduw â’th holl galon ac â’th holl enaid, a thi a’th blant yn gwranddo ar ei lais, yn union fel yr wyf yn gorchymyn iti heddiw... Daw’r Arglwydd dy Dduw â thi i’r wlad a feddiannodd dy hynafiaid, a byddi dithau’n ei meddiannu; bydd ef yn dy lwyddo ac yn dy wneud yn fwy niferus na’th hynafiaid’.

Ymhellach gwelwn Luther yn chwarae ar y ffaith bod pymtheg cant o flynyddoedd wedi mynd heibio ac eto nid yw’r addewid wedi cael ei chyflawni. Dywed Luther mai’r unig esboniad pam nad yw Jerwsalem wedi’i hadfer i’r bobl Etholedig yw oherwydd pechod yr Iddewon o wrthod derbyn Iesu o Nasareth fel y Meseia. Ym marn Luther, nid oedd dyfodol i Iddewiaeth. Yr oedd Duw wedi cefnu ar ei bobl; nid cenedl Etholedig mohoni mwyach ac yr oedd defodau a deddfau’r Iddewon yn hollol ddi-rym.¹⁶

Mae Leon Poliakov yn egluro fel a ganlyn: i ddeall y newid yn agwedd Luther tuag yr Iddewon, gellir nodi yn bennaf nad oedd ei bropaganda gwreiddiol yn llwyddiannus gyda’r Iddewon. Dim ond ychydig iawn o Iddewon a drodd at Gristnogaeth, ac ymddengys bod y rhan fwyaf o’r rhain hefyd wedi datgyffesu.¹⁷ Dywedodd Luther: os byddaf yn dod o hyd i Iddew i fedyddio, byddaf yn ei arwain at bont Elbe, rhoi carreg o gwmpas ei wddf, a’i wthio i mewn i’r dŵr, gan fedyddio ef yn enw Abraham.¹⁸ Dyma oedd y trobwynt mewn agwedd Luther tuag at yr Iddewon.

2.3: *Am yr Iddewon a’u Celwyddau (1543)*

Mae gwenwyn gwrth-Iddewig Luther yn dod yn amlwg yn yr ysgrif newydd hon yn 1543. Nid oes unrhyw bosibilrwydd o oddefgarwch a dim siawns o gydfodoli â’r Iddewon. Dyma yn sicr lle gwelir gwrth-Iddewiaeth Luther yn cyffwrdd â ffiniau gwrth-Semitiaeth. Ysgrifennodd Luther ei ysgrif (65,000 gair) - *Am yr Iddewon a’u Celwyddau* - ugain mlynedd ar ôl ei ysgrif gyntaf. Gwelwn yma iaith Luther yn troi yn erchyll wrth siarad am yr Iddewon. Trwy gydol yr ysgrif, mae agwedd Luther yn negyddol a chwerw tuag at yr Iddewon gan ddatgan mai hwy yw’r ymgorfforiad o’r Diafol: ‘mae’r diafol a’i holl angylion wedi meddiannu’r genedl hon.... dacw ddiabol mewn cnawd’.¹⁹

¹⁶ Jones, *Lleisiau o’r Llundw*, t. 88.

¹⁷ Leon Poliakov, *The History of Anti-Semitism, Vol. 1* (Pennsylvania: Vanguard Press, 1975) tt. 222-223.

¹⁸ Hartmann Grisar, *Luther*, Cyfr. V (Llundain: Kegan Paul, Trench, Trübner & CO. LTD, 1916), t. 413.

¹⁹ *On the Jews and Their Lies*, Luther’s Works, Cyfr 47 (Philadelphia: Fortress Press, 1962), tt. 214-4.

Mae Olaf Roynesdal yn dadlau bod yn rhaid cychwyn gyda'r ysgrif hon wrth geisio ymchwilio agweddau Luther tuag at yr Iddewon. Dywed fod Luther yn gynnyrch ei oes, un a oedd yn drwm o dan ddylanwad agweddau eithafol yr Oesoedd Canol. Byddai Luther yn sicr wedi astudio'r Tadau Cynnar, tra bod gwreiddiau gwrth-Iddewiaeth i'w canfod yn y Testament Newydd. Serch hynny, yn ystod yr Oesoedd Canol y trodd gwrth-Iddewiaeth Gristnogol yn arfer systematig a chyfreithlon. Mae unrhyw drafodaeth o'r berthynas rhwng Iddewon a Christnogion yn yr unfed ganrif ar bymtheg, felly, yn gorfod dod i dermau gyda'r modd yr oedd yr Oesoedd Canol wedi effeithio'n uniongyrchol ar agwedd Luther tuag at yr Iddewon.²⁰

Cyhuaddodd yr Iddewon o fod yn ddewiniaid, gan ddweud eu bod yn ymarfer celfyddydau duon. Wrth i Luther alw'r Iddewon yn usurwyr, mae'n eu cyhuddo o fod yn lladron ac y dylid eu crogi ar grocbren sydd saith gwaith yn uwch nag ar gyfer lladron eraill. Ym marn Luther, yr oedd yr Iddewon yn waeth na phobl sydd yn troseddu ac y dylid eu gyrru allan o'r Almaen am fod yn bla sydd yn heintio'r gymuned. Doedd Luther ddim yn anwybyddu cyhuddiadau traddodiadol canoloesol yn erbyn yr Iddewon. Yn hytrach roedd yn defnyddio'r cyhuddiadau hyn i'w fantais – yr oeddent yn euog, meddai, o wenwyno ffynhonnau, herwgipio a lladd plant ar gyfer defodau Iddewig a adwaenir fel Enllib Gwaed.²¹

Ymhellach, mae Luther yn egluro bod yr Iddewon y tu hwnt i bob cymorth. Yn wir mae ei gatalog o gyhuddiadau a'i gamdriniaeth o'r Iddewon yn gwaethygu ar bob tudalen. Roedd Luther yn dirmygu'r Iddewon ac felly yn egluro yn ei ysgrif eu bod yn dangos eu balchder yn eu gweddïau, yn eu hemynau yn eu synagogau ac yn eu bywyd yn gyffredinol. I Luther roedd yr Iddewon, yng ngeiriau Dan Cohn-Sherbok, yn 'detestable aliens, members of a race who had denied Christ'.²²

2.4: Saith Awgrym Eithafol

Yn adran olaf *Am yr Iddewon a'u Celwyddau*, sef yr adran fwyaf nodedig, mae'n amlwg fod ysgrif llawn casineb Luther yn fynegiant o'i rwystredigaeth bod yr Iddewon yn gwrthod troi at Gristnogaeth. Ond ni allai hyd yn oed hyn baratoi ar gyfer yr hyn yr oedd Luther yn awgrymu nesaf. Dyma le mae ei eiriau gwrth-Iddewig yn troi yn eiriau gwrth-Semitaidd wrth iddo gynnig

²⁰ Olaf, Roynesdal., *Martin Luther and The Jews* (Ph.D. Cyhoeddedig, Marquette University, 1986), t. 1.

²¹ Probst, *Demonizing the Jews*, tt. 49-50.

²² Dan Cohn-Sherbok, *The Paradox of Anti-Semitism* (Llundain: Continuum International Publishing Group, 2006) t. 32.

saith awgrym eithafol sut i ddelio gyda'r Iddewon. Yn gyntaf mae Luther yn cyhoeddi bod angen llosgi synagogau ac ysgolion lle mae'r Iddewon yn pregethu cabledd. Mae Luther yn egluro bod y Talmwd yn datgan mai mab i butain oedd Iesu. Yn ail, mae Luther yn galw am losgi cartrefi'r Iddewon er mwyn eu halltudio i fyw fel sipsiwn, gan atgoffa'r Iddewon o'u statws fel ffoaduriaid. Yn drydydd, mae Luther yn nodi ei bod yn bwrpasol i ddwyn y Talmwd a llyfrau gweddi oddi wrth yr Iddewon rhag iddynt ddylanwadu ar eu harferion crefyddol. Yna, mae Luther yn galw am beidio â gadael i Rabiniaid addysgu'r grefydd. Ymhellach dweud na ddylai'r Wladwriaeth eu hamddiffyn ar y priffyrdd na gadael i bobl fenthyg arian ar log gan yr Iddewon ac y dylai'r Eglwys hawlio eu heiddo. Yn olaf mae Luther yn galw ar yr Iddewon i weithio llafur gorfodol er mwyn ennill eu bara beunyddiol.²³

Mae Luther yn gorffen yr adran hon gyda'r geiriau canlynol:

‘Yr ydym ar fai yn peidio â dial am holl waed dieuog ein Harglwydd a'r Cristnogion a dywallasant am dri chan mlynedd ar ôl dinistr Jerwsalem, a gwaed y plant a dywallasant ers hynny.... Yr ydym ar fai yn peidio â'u lladd. Yn hytrach, gadawn iddynt fyw'n dddramgwydd yn ein plith, er gwaethaf eu holl lofruddio, melltithio, cablu, dweud anwireddau a dilorni; yr ydym yn gwarchod ac amddiffyn eu synagogau, eu tai, eu bywyd a'u heiddo'.²⁴

2.5: *Vom Schem Hamphoras*

Nid yr ysgrif *Am yr Iddewon a'u Celwyddau* oedd unig ymdrech Luther i ddifenyddu'r Iddewon. Ym mis Mawrth 1543, cyhoeddodd ysgrif arall a enwir *Vom Schem Hamphoras* (sef teitl Iddewig am yr enw dwyfol sanctaidd na ellir ei ynganu).²⁵ Nid yw darllen yr ysgrif hon yn brofiad pleserus; mae'n llawn gwatwar a dirmygion chwerw ynghylch yr Iddewon. Mae ei nodweddion rhethregol wedi arwain Thomas Kaufmann i ddisgrifio'r ysgrif fel 'the ugliest and linguistically dirtiest document that Luther had ever written'.²⁶ Mae'r iaith yn yr ysgrif yma yn fwy negyddol a chrai na'r ysgrif *Am yr Iddewon a'u Celwyddau*. Yn wir, defnyddiodd Luther y teitl yma i chwarae ar y geiriau, *Schem Hamphoras* i olygu *Sham Ha Peres* sydd yn cyfieithu i 'dyma'r budreddi'. Yn wir, roedd am ddweud bod yr Iddewon yn *beschissen* sydd yn golygu

²³ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 90.

²⁴ Luther, *Yr Iddewon a'u Hanwiredd* (Luther's Works, Cyfrol 47, t. 267; cyfieithiad Cymraeg: Jones, *Lleisiau o'r Llundw*), t. 90.

²⁵ I gael mwy o wybodaeth am *Vom Schem Hamphoras*, gweler Gerhard Falk, *The Jew in Christian Mythology*.

²⁶ Thomas Kaufmann, *Luthers Juden* (Stuttgart: Reclam, 2014) (cyfieithiad Brooks Schramm), t. 134.

‘llawn cachu’ ac yn galw’r Iddewon yn *Säujuden* sydd yn cysylltu’r Iddewon hefo mochyn, anifail brwnt.²⁷

Yn yr ysgrif hon, mae Luther yn galw’r Iddewon yn garcharorion y Diafol, gan eu cyhuddo o addoli Satan. Yn y frawddeg gyntaf defnyddia Luther iaith ymosodol tuag at yr Iddewon drwy eu galw yn ‘*rasenden a elended Juden*’, sef Iddewon gwallgof a gresynus. Trwy gydol yr ysgrif hon, mae Luther yn defnyddio iaith arswydus wrth gyfeirio at yr Iddewon. Defnyddia’r term *Judas pisse* i ddisgrifio dehongliadau rabbinaidd o’r Ysgrythur.²⁸ Ymhellach mae’n chwarae ar y portread canoloesol o’r Iddewon fel *Judensau*, sef y darlun o’r Iddewon yn Eglwys Saint Mair yn Wittenberg lle cant eu portreadu fel hwch gyda’i mochyn bach ac Iddewon ifanc o’i gwmpas, tra bod rabbi yn eistedd yn erbyn pen ôl yr hwch ac yn bwyta ei hysgarthiad.

Pwrrpas ysgrifennu'r ysgrif yma, yn ôl Luther, oedd cyflwyno tri pheth. Yn gyntaf, roedd am ddarparu amddiffyniad o’r Ail Orchymyn a’r defnydd cywir o enw Duw (*Shem Hameporash*) dros yr Iddewon a’u hofergoelion. Yn ail, roedd am danseilio traddodiadau’r rabbiniaid a oedd yn cael dylanwad ar Gristnogion Hebraeg. Yn olaf, ceisia Luther gryfhau ei ddadleuon dros alltudio’r Iddewon o diroedd Protestannaidd Almaeneg – dadleuon a gyflwynwyd eisoes yn ei ysgrif *Am yr Iddewon a’u Celwyddau*.²⁹

2.6: Gwrth-Iddewiaeth a/neu Gwrth-Semitiaeth?

Mae gwrth-Iddewiaeth yn cael ei ddiffinio fel casineb tuag at yr Iddewon ar sail eu crefydd yn unig. Y diffiniad o wrth-Semitiaeth, ar y llaw arall, yw gelyniaeth tuag at Iddewon trwy fod yn rhagfarnllyd tuag atynt am resymau hiliol. Mae’n bwysig i egluro'r gwahaniaeth rhwng y termau gwrth-Iddewiaeth a gwrth-Semitiaeth er mwyn penderfynu i ba gategori y perthyn datganiadau Luther yn ei ail ysgrif yn erbyn yr Iddewon.

Gwelwn gasineb Luther tuag at yr Iddewon yn llawn grym yn yr ysgrif hon. Gellir dadlau bod Luther wedi llunio’r ysgrif am resymau diwinyddol, ond mae rhai ysgolheigion yn dadlau ei

²⁷ Luther, *Vom Schem Hamphoras und vom Geschlecht Christi* yn WA 53, tt. 601, 618-19, 636-37, 647 (gweler Probst, *Demonizing the Jews*, t. 187 n.58).

²⁸ Luther, *Vom Schem Hamphoras*, tt. 601, 618-19, 636-37, 647 (gweler Probst, *Demonizing the Jews*, t. 187 n.58).

²⁹ Brooks Schramm, ‘Luther’s Schem Hamphoras’, *Dialog: A Journey of Theology*, Cyfr. 56, Rhifyn. 2 (Gettysburg: Wiley-Blackwell, 2017), <<https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=2&sid=9fd49f19-0c24-477e-bbc3-17b6378665d2%40sessionmgr120>>, (Dyddiad Mynediad 05/11/2018), t. 152.

bod yn arddangos elfennau o wrth-Semitiaeth hyd yn oed os mai rhesymau crefyddol oedd prif ysbardun Luther dros ysgrifennu'r gwaith. Mae Probst yn ceisio gwerthuso a yw'r ysgrif yn defnyddio rhethreg gwrth-Iddewig neu a yw'n wrth-Semitaidd mewn gwirionedd. Mae'n bwysig ystyried barn ysgolheigion o'r materion hyn er mwyn penderfynu a oedd Luther yn ysgrifennu am yr Iddewon am resymau crefyddol neu resymau hiliol, neu efallai cyfuniad o'r ddau.

Mae Heiko Oberman yn dadlau bod Luther yn euog o leisio diwinyddiaeth gwrth-Iddewig yn unig. Eglura ei fod yn deall y realiti crefyddol yng nghyd-destun hanesyddol y cyfnod canoloesol (fel y nodwyd uchod yn yr astudiaeth hon). Mae Oberman yn portreadu geiriau hallt Luther trwy ddweud mai ei resymau dros ysgrifennu oedd adennill yr Ysgrythurau yn eu cyfanrwydd i atal yr hyn a eilw 'the perversities they were suffering at the hands of the Jews'.³⁰ Nid yw Oberman yn barod i alw ysgrif Luther yn wrth-Semitaidd, ond mae'n cydnabod bod rhwystredigaethau Luther ynghylch y ffaith fod yr Iddewon yn gwrthod troi at Gristnogaeth yn gallu gweddu'r defnydd cyfoes o'r term gwrth-Semitiaeth.

Mae agwedd Probst yn wahanol i Oberman a dywed: 'the antisemitism of the treatise, however, is not limited to the seven-part political program but is intertwined with anti-Judaic argumentation throughout'.³¹ Dadleua Probst fod agwedd Luther tuag at Iddewon yr unfed ganrif ar bymtheg yn wahanol i agweddau tuag at Iddewon yng nghyfnod y Testament Newydd. Roedd Iddewon y ganrif gyntaf yn euog o gabledd trwy sarhau enw Crist a Mair, a defnyddia Luther y cyhuddiadau yma fel rhan o'r 'reformer's nonrational anti-Judaic arsenal'.³² Er diffyg tystiolaeth eu bod yn lladron ac usurwyr, dengys Luther agwedd senoffobaidd yn yr ysgrif gan ddefnyddio cyhuddiadau o'r fath yma yn erbyn yr Iddewon. Mae Probst yn dadlau bod cyhuddiadau Luther o'r Iddewon yn afresymol ac felly yn wrth-Semitaidd o ran cynnwys a phwrpas.

Ymhellach mae Probst yn pwysleisio nad yw canolbwynt neges Luther yn wrth-Semitaidd a hiliol yn ôl ystyron cyfoes. Dadleua Probst nad oedd Luther yn meddwl am delerau biolegol yr Iddewon wrth iddo feirniadu ymddygiad yr Iddewon. Nid oes unrhyw amheuaeth bod yr ysgrif *Am yr Iddewon a'u Celwyddau* yn canolbwyntio ar ddadleuon diwinyddol a dadleuon Beiblaidd. Ond serch hynny, rhaid cydnabod bod dadleuon diwinyddol Luther wedi dod o dan

³⁰ Heiko Oberman, *Roots of Anti-Semitism in The Age of Renaissance and Reformation* (Augsburg: Fortress Publishing, 1983), t. 50.

³¹ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 55.

³² Probst, *Demonizing the Jews*, t. 55.

ddylanwad agwedddau erchyll o afresymol y Canol Oesoedd tuag at yr Iddewon.³³ Gellir dadlau, felly, bod rhaglen gwrth-Iddewig gymdeithasol a gwleidyddol Luther yn ei ddiwinyddiaeth wedi'i seilio ar agwedddau canoloesol tuag at yr Iddewon.

2.7: Dylanwad Luther am yr Iddewon ar ei gyfoeswyr a Christnogion hyd at ddyfodiad y Natsïaid.

Mae Reinhold Lewin yn datgan fel a ganlyn: 'whoever writes anything against the Jews, no matter what the motives are, believes they have the right to refer triumphantly to Luther'.³⁴ Fel sefydlydd yr Eglwys Lutheraidd, mae gwaith Luther wedi cael ei ddefnyddio gan Lutheriaid ar hyd y canrifoedd. Mae'n hanfodol, felly, ystyried effeithiau ei weithiau ar yr Iddewon ar Lutheriaid ei gyfnod ac mewn cyfnodau diweddarach.

Mewn cyfnodau diweddarach, daeth tystiolaeth Luther am yr Iddewon yn 'fyw' mewn ffordd na fwriadwyd gan Luther ei hun. Yr oedd y llwybr o Luther i Kristallnacht i Auschwitz yn un hir a throellog, ac mae un ffactor bwysig yn eu clymu ynghyd, sef statws Luther fel ffigwr o awdurdod yn yr Almaen ac mewn Protestaniaeth. Mae pob cenhedlaeth wedi tueddu defnyddio gwaith Luther ar gyfer ei agenda eu hun, a hynny er mwyn hawlio ei awdurdod. Mae'r ffenomen yma yn un cymhleth, gan gychwyn gyda dehongliad Luther o'r Hen Destament yn groes i'w gymeriad Iddewig. Yn y cyfnod yn syth ar ôl y Diwygiad Protestannaidd a hyd at yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, gellir canfod dau ddatblygiad gwahanol ynglŷn â dehongliad Luther mewn cysylltiad â'r Iddewon.³⁵

Ymhlith y diwinyddion Cristnogol, roedd tuedd i apelio at ymdriniaeth ddiweddarach Luther, *Am yr Iddewon a'u Celwyddau*, i ddadlau yn erbyn yr Iddewon a'u gwahardd o gymdeithas yn unol â mesurau mwy difriol Luther. Yn ail, y mae'r traddodiadau Pietistaidd yn tueddu i apelio at ysgrif gynharach Luther, *Ganwyd Iesu Grist yn Iddew*, er mwyn amddiffyn ymdrechion i droi Iddewon at Gristnogaeth. Er bod y diwethaf yn llai treisgar, roedd yn dal i negyddu'r

³³ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 55.

³⁴ Reinhold Lewin, *Luthers Stellung zu den Juden. Ein Beitrag zur Geschichte der Judez während des Reformationszeitalters*, Neue Studien zur Geschichte der Theologie und Kirch 10 (Aalen: Scientia Verlag, 1973, first ed, 1911) (Cyfieithiad Saesneg: Eric W. Gritsch, *Martin Luther's Anti-Semitism: Against His Better Judgment*, t. 97), t. 110.

³⁵ Craig L. Nassan, 'Rethinking Religion: Luther Against the Jews, Repudiating a Reformation Legacy', Cyfr. 32, Rhifyn. 3 (Tikkun: Duke University Press, 2017), <<https://web-b-ebsscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=6b41569b-ea43-4622-aa88-7791dc76d670%40sessionmgr120>>, (Dyddiad Mynediad 16/10/18), t. 36.

Iddewon. Yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef yn oes yr Oleuedigaeth, dyma'r portread o Luther a bwysleisiwyd. Roedd portread yma o Luther a deallwyd iddo fod yn amddiffyn yr Iddewon yn ôl safonau goddefgarwch crefyddol. Rhaid cydnabod, yn y canrifoedd yma, nad oedd etifeddiaeth gwrth-Semitaidd Luther wedi ymatal yn llwyr.³⁶

Mae Probst yn dweud mai dylanwad Luther ar yr agwedd Brotestannaidd i'r 'Cwestiwn Iddewig' yn ansicr rhwng yr ail ganrif ar bymtheg i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, hyd yn oed efallai'r Ugeinfed ganrif gynnar. Roedd gwaith Luther wedi cychwyn dod yn fwy amlwg mewn llenyddiaeth Brotestannaidd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mewn propaganda Natsïaidd yn yr 1930au cynnar. Fe fydd yn eglur yn ddiweddarach, fod ideoleg Natsïaidd, ochr yn ochr â'r argymhellion gwrth-Semitig *Am yr Iddewon a'u Celwyddau*, yn cael eu derbyn gan Brotestaniaid a oedd yn byw mewn cymdeithas a oedd yn dod yn fwyfwy gelyniaethus tuag at Iddewon. Fodd bynnag, gwelwn fod gan y 'regime... motives more nefarious than Luther's'.³⁷

2.8: Casgliad y Bennod

Y mae'r bennod hon wedi gosod y sylfaen ar gyfer trafodaeth o'r modd y bu i Hitler a'r Natsïaid ddefnyddio gwaith Luther er mwyn hybu eu rhethreg gwrth-Semitaidd. Mae Raul Hilberg yn datgan fod y casineb tuag at yr Iddewon bob amser wedi bodoli er gwaethaf eu tarddiad neu eu hamgylchiadau. Yr oedd pwrpas y stereoteipiau yma wastad yr un peth. Felly, nid oes syndod pan ddaeth Hitler i rym, roedd y ddelwedd yma o'r Iddew eisoes yno. Pan siaradodd Hitler am yr Iddewon, roedd o'n siarad â'r Almaenwyr gydag iaith gyfarwydd iddynt: 'when he shouted anti-Jewish attacks, he awakened his Germans as if from slumber to a long-forgotten challenge'.³⁸ Yr oedd y ddelwedd o'r Iddew a welwn mewn propaganda Natsïaidd wedi cael ei llunio sawl canrif ynghynt. Roedd Luther eisoes wedi braslunio prif nodweddion y portread o'r Iddew. Nid oedd angen i'r Natsïaid ychwanegu fawr ato.³⁹

³⁶ Nesson, 'Rethinking Religion: Luther Against the Jews', t 36.

³⁷ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 58.

³⁸ Raul Hilberg, *The Destruction of The European Jews* (Efrog Newydd: Holmes & Meier Publications Inc, 1985), t. 13.

³⁹ Hilberg, *The Destruction of The European Jews*, t. 13.

Pennod 3

Cwblhau'r Diwygiad Protestannaidd yn y Trydydd Reich

Gellir dadlau bod Martin Luther wedi gwasanaethu amcanion diwinyddol ac ideolegol y Blaid Sosialaidd Genedlaethol (y Natsïaid) ond hefyd Cristnogion yr Almaen yn ei rôl hanesyddol fel diwygiwr ac fel tad y Genedl Almaeneg.⁴⁰ Nid yw'r gyfatebiaeth rhwng y diwygiwr a'r *Führer* wedi mynd yn ddisylw. Mae Lucy Dawidowicz yn pwysleisio fel a ganlyn: 'a line of anti-Semitic descent from Martin Luther to Adolf Hitler is easy to draw'.⁴¹ Er hyn, rhaid cydnabod na ellir canfod y syniadau Natsïaidd am wrth-Semitiaeth Ariaidd mewn unrhyw ran o weithiau Luther; hynny yw nid oedd Luther wedi ysgrifennu yn erbyn yr Iddewon ar sail hil. Fodd bynnag, fe ymddengys bod y Natsïaid wedi defnyddio gwaith Luther i gefnogi eu hamcanion eu hunain. Ar ôl dweud hynny, mae cysylltiad o ryw fath rhwng syniadau Luther ac Hitler gan eu bod ill dau yn ystyried yr Iddewon fel heintiau annymunol Ewrop. Roedd y naill a'r llall am gael gwared â phresenoldeb yr Iddewon. Felly, 'Luther's influence on the course of history in the twentieth century is unmistakable'.⁴²

Er bod Hitler a'i ddilynwyr wedi'u symbylu gan syniadau hiliol yn hytrach na chrefyddol, roedd y ddelwedd o'r Iddew a ddatblygodd mewn Cristnogaeth, ac a ddatblygwyd gan Luther, wedi cyfrannu at fframwaith ideolegol y Natsïaid.⁴³ Mae'n hollbwysig felly archwilio sut y defnyddiwyd gwaith Luther gan y Natsïaid fel sylfaen i'w hideoleg a'u gweithredoedd yn erbyn yr Iddewon. Byddaf yn trafod sut roedd Hitler, yn syml, wedi defnyddio cysyniadau gwreiddiol Luther o sut i ddelio â'r 'Broblem Iddewig' a'u rhoi ar waith.⁴⁴ Mae'n bwrpasol edrych ar ddigwyddiadau, gweithredoedd a pholisïau Natsïaid gan edrych yn ôl at gyfarwyddiadau Luther ar sut y dylid trin yr Iddewon: 'it would seem that Hitler followed them rather closely'.⁴⁵

⁴⁰ Hartmut Lehmann, 'Luther also Nationalheld im 19. Jahrhundert', *Luther* 55/2, (1984), t. 53, yn Carter C. Guy, 'Martin Luther in The Third Reich: Recent Research on Luther as Iconic Force in Hitler's Germany', Cyfr. 12, Rhifyn. 1 (Gettysburg: Seminary Ridge Review, 2009), <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/225215478/fulltextPDF/E442907E36134C12PQ/1?accountid=130472>>, (Dyddiad Mynediad 18/02/19), t. 51.

⁴¹ Lucy Dawidowicz, *The War Against The Jews* (Harmondsworth: Penguin Books, 1987), t. 50.

⁴² Dan Cohn-Sherbok, *Anti-Semitism: A History* (Stroud: Sutton Publishing Limited, 2002), t. 97.

⁴³ Cohn-Sherbok, *Anti-Semitism: A History*, t. 97.

⁴⁴ Daphne M. Olsen, 'Luther and Hitler: A Linear Connection between Martin Luther and Adolf Hitler's Anti-Semitism with a Nationalistic Foundation', *Master of Liberal Studies Theses* (Florida: Rollins College, 2012), <<https://scholarship.rollins.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1019&context=mls>>, (Dyddiad Mynediad 13/02/19), t. 37.

⁴⁵ Olsen, 'Luther and Hitler', t. 37.

3.1: *Mein Kampf* (1925)

Cyn archwilio sut y gwnaeth Hitler a'r Natsïaid ddefnyddio gwaith Luther i atgyfnerthu eu polisïau gwrth-Semitaidd, mae'n bwrpasol gosod y cyd-destun o'r modd y bu i Luther ddylanwadu ar Hitler cyn iddo ddod i rym. Yn 1925, mi wnaeth Hitler ysgrifennu *Mein Kampf*, sef o'i gyfieithu: 'Fy Mrwydr'. Yn y llyfr hwn mae Hitler yn beio'r Iddewon am fod yn gyfrifol am aflwyddiannau'r Almaen. Ymhellach, yr oedd Hitler yn beio'r Iddewon am orchfygiad yr Almaen yn y Rhyfel Mawr, am Gytundeb Versailles ac am sefydlu Gweriniaeth Weimar. Er hyn, gellir datgan 'there was no more to Hitler's views than simple anti-Semitism'.⁴⁶ Gwelwn yn *Mein Kampf* bod Hitler yn siarad yn uchel am Luther. Yn y bennod 'Dechrau fy Ngweithgarwch Gwleidyddol', mae Hitler yn trafod y 'milwyr mawr' yn y byd: 'though not understood by the present, are nevertheless prepared to carry the fight for their ideas and ideals to their end...Beside Frederick the Great stands Martin Luther'.⁴⁷

Mae'n amhosibl dadlau nad oedd syniadau Luther wedi dylanwadu ar Hitler a'i farn. Nid cyddigwyddiad mo'r ffaith bod agweddau gwrth-Semitaidd Hitler o'r 1930au ac 1940au yn adlewyrchu gwrth-Iddewiaeth Luther o'r bymthegfed ganrif. Mewn gwirionedd, roedd y Natsïaid eu hunain yn cydnabod Luther fel eu harweinydd ysbrydol.⁴⁸ Roedd Luther yn datgan mai am resymau crefyddol yr oedd yn ysgrifennu am erlid yr Iddewon, a gwelwn sut mae Hitler yn defnyddio dadl debyg. Yn *Mein Kampf*, fe ddywed Hitler: 'I believe to-day that my conduct is in accordance with the will of the Almighty Creator. In standing guard against the Jew, I am defending the handiwork of the Lord'.⁴⁹ Gwelwn sut y gwnaeth Hitler geisio defnyddio rhesymau crefyddol Luther fel cyfiawnhad dros gasáu'r Iddewon. Mae angen archwilio sut y bu i Hitler a'r Natsïaid fanipwleiddio gwaith Luther i'w mantais eu hunain, a hynny mewn tro yn arwain at hil-laddiad chwe miliwn o Iddewon.

3.2: Hitler yn Dod i Rym

Ar y 30 o Ionawr 1933, daeth Hitler yn Ganghellor yr Almaen. Galwodd etholiad ar Fawrth 15 yn yr un flwyddyn ac enillodd y Blaid Natsïaid y mwyafrif o bleidleisiau ac felly roedd gan

⁴⁶ Alan Farmer, *Anti-Semitism and The Holocaust* (Llundain: Hodder & Stoughton, 1998), t. 17.

⁴⁷ Adolf Hitler, *Mein Kampf* (Boston and Efrog Newydd: Houghton Mifflin Company, 1971), t. 213.

⁴⁸ Olsen, 'Luther and Hitler', t. 41.

⁴⁹ Adolf Hitler, *Mein Kampf* (Efrog Newydd & Llundain: Houghton Mifflin Company, 1969), t. 60.

Hitler a'r Natsïaid y mwyafrif o seddi yn yr Reichstag. Pasiodd y Natsïaid y Ddeddf Alluogi a oedd yn rhoi pwerau unbenaethol i Hitler. Gyda marwolaeth Arlywydd Paul von Hindenburg yn Awst 1934, penderfynodd Hitler y byddai'n ei olynu, ond fel Führer (arweinydd goruchaf) yn hytrach nag fel arlywydd pobl yr Almaen. Roedd ysbryd y Trydydd Reich wedi'i ymgorffori yn Hitler a'i rethreg gwrth-Semitaidd, ac felly dim ond un ewyllys fyddai yn yr Almaen, ac ewyllys Hitler oedd hwnnw.⁵⁰ Wrth siarad am ewyllys Hitler, gellir dweud hefyd ei fod wedi cael ei ddylanwadu gan Luther. Mae angen archwilio sut y bu i Hitler a'r Natsïaid ddefnyddio gwaith Luther, a pha mor amlwg oedd dylanwad Luther ar y Trydydd Reich.

3.3: Dylanwad Luther ar Bropaganda Natsïaid

Pan ddaeth Hitler i rym, dechreuwyd targedu'r Iddewon yn syth gan y Natsïaid. Roedd propaganda yn chwarae rôl flaenllaw wrth geisio sicrhau erledigaeth yr Iddewon. Pwrpas y propaganda hwn oedd perswadio'r Almaenwyr i gasáu'r Iddewon. Wrth i Hitler sefydlu isadeiledd i ledaenu ei neges trwy bropaganda, ei dacteg oedd cyplysu ei gyfarwyddiadau gwrth-Semitaidd gyda gwaith sylfaenol Luther.⁵¹ 'Hitler depicted Luther as an elder statesman whose words were appropriate for belief and action against the Jews'.⁵² Roedd gwaith Luther yn erbyn yr Iddewon yn addas er mwyn cefnogi'r ideoleg a rhethreg gwrth-Semitaidd y Natsïaid.

Gellir dadlau bod Luther wedi cael ei bortreadu fel ffigwr oedd yn awdurdodi propaganda gwrth-Semitaidd.⁵³ Roedd pamffled propaganda Natsïaidd wedi cael ei gyhoeddi gyda'r enw 'Why the Aryan Law? A Contribution to the Jewish Question'. Roedd gan y pamffled hwn gylchrediad eang; fe'i hysgrifennwyd gan Dr E. H. Schulz a Dr. R. Frercks yn 1934, sef cyn Deddfau Nuremberg ym 1935. Gwnaeth Schulz a Frercks ddyfynnu Luther yn eu pamffled er mwyn ceisio cyfiawnhau deddfwriaeth hiliol y Natsïaid.⁵⁴ Roedd dyfyniad o'r ysgrif *Am yr Iddewon a'u Celwyddau* wedi cael ei ddefnyddio yn y pamffled fel a ganlyn: 'They (Jews) hold

⁵⁰ Farmer, *Anti-Semitism and The Holocaust*, t. 20.

⁵¹ Thomas S. Mueller, *Adolf Hitler and Martin Luther: Anti-Semitism, Nazi Propaganda and The German Lutheran Church* (Ph. D. Cyhoeddiedig, ProfWriter LLC, 2013), cyflwyniad.

⁵² Mueller, *Adolf Hitler and Martin Luther*, cyflwyniad.

⁵³ Nesson, 'Rethinking Religion: Luther Against the Jews', t. 36.

⁵⁴ Emily Paras, 'The Darker Side of Martin Luther: Constructing the Past', Erthygl 4, Cyfr. 9, Rhifyn. 1 (Illinois: Illinois Wesleyan University, 2008), <<https://digitalcommons.iwu.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1012&context=constructing>>, (Dyddiad Mynediad 07/02/2018), t. 9.

we Christians captive in our own land. They have seized our goods by their cursed usury, they mock and insult because we work'.⁵⁵

Yn dilyn y dyfyniad yma, gwnaeth Schulz a Frercks fanylu ymhellach ar syniadau ac ysgrifeniadau Luther, ac ar y cysylltiadau rhyngddynt a deddfwriaeth Natsïaid. Gwnaeth Schulz a Frercks ddiweddu'r pamffled gyda'r geiriau: 'If in the coming days the Jewish race is driven out of the non-Jewish world...It has made clear to them for all time the value of maintaining the purity of race and blood in clear, understandable and unforgettable ways'.⁵⁶ Er nad oedd Luther wedi ysgrifennu am yr Iddewon mewn termau hiliol, roedd y Natsïaid wedi gwyrddroi ysgrifau Luther er mwyn atgyfnerthu eu credoau o gasáu'r Iddewon ar sail hil.⁵⁷

Roedd erthyglau a oedd wedi cael eu hysgrifennu yn ystod y Trydydd Reich hefyd wedi defnyddio syniadau Luther er mwyn ategu eu credoau. Er enghraifft, ysgrifennodd Kurt Hilmar Eitzen erthygl o'r enw 'Ten Responses to Jewish Lackeys'. Roedd yr erthygl hon yn cyflwyno gwrthddadl i'r mwyafrif o wrthwynebiadau a wynebai'r Natsïaid. Roedd y gwrthddadleuon i gael eu defnyddio yn sgysiau pob dydd ymysg dinasyddion. Mae Luther yn cael ei ddyfynnu yng ngwrthddadl rhif pump: 'Argument 5: "Mr Levi is not a Jew, since he has been baptized!" Counterargument: "I have no desire to convert the Jews"', Martin Luther wrote, "since that is impossible. A Jew remains a Jew."⁵⁸ Mae'r esiampyl yma o bropaganda Natsïaidd yn enghraifft arall o'u camddefnydd o waith Luther.

Rydym yn ymwybodol bod Luther yn aml wedi gwrth-ddweud ei hun ynghylch y posibilrwydd o droi'r Iddewon at Grist. Fodd bynnag, gwnaeth Luther ysgrifennu 'May Christ, our dear Lord, convert them mercifully'.⁵⁹ O'r datganiad hwn, gallwn ddweud bod Luther wedi credu'r posibilrwydd o droi'r Iddewon at Gristnogaeth. Er hyn, ystyfnigrwydd yr Iddewon oedd y prif reswm am y newid mewn agwedd Luther, 'Yr ydym ar fai yn peidio â dial am holl waed dieuog ein Harglwydd a'r Cristnogion'.⁶⁰ Er gwaethaf hyn, wnaeth yr erthygl hon manipwleiddio gwaith Luther i gefnogi credoau'r Natsïaid fod nid oes modd troi'r Iddewon at Grist am

⁵⁵ German Propaganda Archive, 'Schulz & Frercks: Why the Aryan Law? A Contribution to the Jewish Question', <<https://research.calvin.edu/german-propaganda-archive/arier.htm>>, (Dyddiad Mynediad 12/02/19) yn E. H. Schulz and R. Frercks, *Warum Arierparagraph? Ein Beitrag zur Judenfrage* (Berlin: Verlag Neues Volk, 1934).

⁵⁶ German Propaganda Archive, 'Schulz & Frercks: Why the Aryan Law?'

⁵⁷ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', t. 9.

⁵⁸ German Propaganda Archive, 'Kurt Hilmar Eitzen: Ten Responses to Jewish Lackeys', <<https://research.calvin.edu/german-propaganda-archive/arier.htm>>, (Dyddiad Mynediad 12/02/19) yn Kurt Hilmar Eitzen, 'Zehn Knüppel wider die Judenknächte', *Unser Wille und Weg* (6) 1936, tt. 309-310.

⁵⁹ On the Jews and Their Lies, *Luther's Works* (Philadelphia: Fortress Press, 1962), t. 306.

⁶⁰ On the Jews and Their Lies, *Luther's Works*, tt. 214, 278.

resymau hiliol. Y cysyniad o hil a phurdeb gwaed oedd cred sylfaenol y blaid Natsïaidd.⁶¹ Eto, mae'n bwysig cofio roedd agweddau negyddol Luther o fewn cyd-destun wrth-Iddewig, sydd yn wahanol i agweddau gwrth-Semitaidd Hitler. Ond lwyddodd erthygl Eitzen i gymryd dyfyniad Luther allan o'i gyd-destun, gan aflunio geiriau Luther i atgyfnerthu eu syniadau hiliol.⁶²

Does dim modd trafod propaganda gwrth-Semitaidd y Natsïaid heb drafod Julius Streicher. Roedd Streicher yn gyfrifol am sefydlu papur newydd gwrth-Semitaidd o'r enw *Der Stürmer*. Wnaeth Streicher defnyddio ideoleg ganoloesol Luther er mwyn ennyn casineb tuag at yr Iddewon yn ei bapur newydd.⁶³ Cyhoeddodd Streicher nifer o erthyglau a oedd yn dyfynnu Luther.⁶⁴ Roedd Streicher wedi galw ar ysbryd Luther fel unigolyn oedd eisiau rhyddhau Almaenwyr o'r heintiau Iddewig.⁶⁵

Cyhoeddodd Streicher lyfr ar gyfer plant a enwir yn *Giftpilz* sydd yn cyfieithu fel 'Madarch Gwenwynig'. Yn y llyfr, ceir stori am fam yn siarad â'i phlant ac yn dweud: 'remember that the Jews are children of the Devil and human murderers'.⁶⁶ Gwelwn sut mae Streicher yn chwarae ar eiriau Luther gan mai yma oedd ei rybudd i'r Cenedl-ddynion ynghylch yr Iddewon. Mae ysgrif Luther *Am yr Iddewon a'u Celwyddau* yn defnyddio llawer o baranoia gwrth-Iddewig o'r Canol Oesoedd. Ysgrifennodd Luther, 'dacw ddiafol mewn cnawd', ac felly yr oedd yn argyhoeddedig mai'r Iddew oedd gelyn pennaf yr Almaenwyr.⁶⁷ Ymhellach, gwnaeth Luther gyhuddo'r Iddewon o herwgipio, gwenwyno ffynhonnau a lladd plant i bwrpas Enllib Gwaed.⁶⁸ Felly gwelwn sut y defnyddiodd Streicher y ddelwedd draddodiadol Gristnogol o'r Iddew yn ei bropaganda gwrth-Semitaidd. Mae Luther yn datgan bod yr Almaen yn 'devil-possessed Volk', ac rydym yn gweld adlewyrchiad o'r un cysyniad yng ngwaith Streicher.⁶⁹

Er effeithlonrwydd propaganda i geisio indoctrineiddio'r Almaenwyr, mae'n hollbwysig cydnabod nad yw'r esiamplau yma yn profi bod Hitler a'r Natsïaid megis Streicher wedi cael eu sbarduno yn bennaf gan draddodiadau Cristnogol o elyniaeth tuag at Iddewon. Ond maent

⁶¹ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', t. 10.

⁶² Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', t. 10.

⁶³ Henry Munson, 'Religions: Christianity, Antisemitism, and The Holocaust', Cyfr. 9, Rhifyn. 1, 26 (Orono: University of Maine, 2018), <<https://www.mdpi.com/2077-1444/9/1/26/html>>, (Dyddiad Mynediad 05/02/2019), tt. 5-6.

⁶⁴ Falk, *The Jew in Christian Theology*, t. 58.

⁶⁵ Falk, *The Jew in Christian Theology*, t. 58.

⁶⁶ Munson, 'Religion: Christianity, Antisemitism, and The Holocaust', t. 6.

⁶⁷ *On the Jews and Their Lies*, Luther's Works, Cyfr. 47 (Philadelphia, 1971), tt. 214, 278.

⁶⁸ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 89.

⁶⁹ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 153.

yn datgelu bod y Natsïaid wedi sylweddoli fod yr elyniaeth yma wedi mewnbllannu yn y darfelydd poblogaidd Cristnogol ac roedd modd iddynt ecsbloetio'r ddelwedd yma i elwa cefnogaeth dros eu polisïau gwrth-Semitaidd.⁷⁰ Gwelwn sut y bu i Streicher ddefnyddio Luther fel ffigwr o awdurdod ac fel 'outspoken Jew hater' i'w fantais ei hun.⁷¹

Nid oes syndod felly pam y bu i Streicher ddadlau, pan oedd ar brawf Nuremberg yn 1946 bod Luther wedi dylanwadu ar ei waith. Dadleuodd Streicher bod gwrth-Semitiaeth wedi bod yn rhan o ddiwylliant y wlad ers canrifoedd. Roedd modd i Streicher ymestyn nôl at ysgrifau Luther. Dywedodd Streicher yn y llys: pe bai ysgrif Luther *Am yr Iddewon a'u Celwyddau* wedi cael ei gymryd i ystyriaeth gan yr erlyniad, byddai Luther eu hun yn eistedd yn doc fel diffynnydd.⁷²

3.4: Hitler a'u Natsïaid Swyddogol

Gyda Hitler a'u Natsïaid dod i rym, roedd awdurdod Luther yn cael ei ddyfynnu gan y Natsïaid, ac roedd ei ysgrifau gwrth-Semitaidd yn cael eu hadfywio.⁷³ Roedd y Führer yn credu bod gwaith Luther yn gydnaws â 'gwir' rethreg yr Almaen. Datganodd Hitler yn eu 'Table Talk' (*Tischreden*) mai Luther oedd y 'first great revolutionary'.⁷⁴ Roedd eraill yn cyfeirio at Luther fel 'implicitly the first National Socialist'.⁷⁵ O ran gylch mewnol Hitler, roedd dylanwad ysgrifeniadau Luther ar y Natsïaid yn eithaf dwys. Roedd nifer o brif gynghorwyr Hitler wedi dyfynnu Luther. Roedd Bernhard Rust, Gweinidog Addysg Hitler, wedi mynd mor bell â dweud bod Hitler yn ailymgawdoliad o Luther. Dywedodd y papur newydd Natsïaidd *Völkischer Beobachter*:

'Since Martin Luther closed his eyes, no such son of our people has appeared again...we shall be the first to witness his reappearance...I think the time is past when

⁷⁰ Munson, 'Religions: Christianity, Antisemitism, and The Holocaust', t. 6.

⁷¹ Falk, *The Jew in Christian Theology*, t. 58.

⁷² Mark Bourrie, 'Hanging the Sin Eater: International Criminal Law's Failure to Engage with the Role of Media in a Criminal State', Cyfr. 43, Rhifyn. 4 (Toronto: Canadian Journal of Communication, 2018), <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/2155639703/fulltextPDF/DEA6C5D2D40E44B4PQ/1?accountid=130472>> (Dyddiad Mynediad 10/02/19), tt. 626-27.

⁷³ Dawidowicz, *The War Against the Jews*, t. 50.

⁷⁴ Richard Steigmann-Gall, *The Holy Reich: Nazi Conceptions of Christianity: 1919-1945* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004), t. 256.

⁷⁵ Steigmann-Gall, *The Holy Reich: Nazi Conceptions of Christianity*, t. 266.

one may not say the names of Hitler and Luther in the same breath. They belong together; they are of the same old stamp'.⁷⁶

Mae'r dyfyniad yma gan Rust yn datgan fod ef ei hun wedi ei ddylanwadu gan Luther, ac roedd ef yn credu bod dysgeidiaeth Luther yn gyfochrog i un Hitler. Er mwyn dadlau bod Luther a Hitler yn 'perthyn i'w gilydd', mae Rust yn ceisio cyfiawnhau gweithredoedd Hitler trwy gredoau Luther.⁷⁷ Mae Hans Hinkel, newyddiadurwr a gweinidogaeth swyddogol yn ystod y llywodraethiad Natsïaid, hefyd wedi cael ei ddylanwadu gan Luther. Roedd Hinkel wedi rhoi teyrnged i Luther yn ystod ei araith derbyn o Siambr o Ddiwylliant a Phropaganda Goebbels gan ddweud: 'through his acts and his spiritual attitude he began the fight which we still wage today; with Luther the revolution of German blood and feeling against alien elements of the Volk was begun'.⁷⁸ Eto, mae'r dyfyniad hwn yn dangos bod gwaith Luther yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau gweithredoedd hiliol y Natsïaid. Yn yr achos hwn, gwnaeth Hinkel gyfeirio at y ffaith bod Luther wedi cychwyn y chwyldro, ac roedd y Natsïaid nawr yn parhau, parhau, y chwyldro a gychwynnwyd gan Luther.⁷⁹

3.5: Dylanwad Luther ar Weithredoedd y Natsïaid

Gellir dadlau fod Luther hefyd wedi dylanwadu ar brif ddigwyddiadau'r Trydydd Reich.⁸⁰ Mae Probst yn pwysleisio fod gan Luther statws pwysig yn yr Almaen yn ystod y Trydydd Reich, ac o ganlyniad i hyn roedd y Natsïaid a'u cefnogwyr wedi apelio at weithiau Luther am gefnogaeth i'w hideoleg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.⁸¹ Yn yr adran hon, byddaf yn dangos sut y gwnaeth y Natsïaid gymryd ysgrif Luther, *Am yr Iddewon a'u Celwyddau*, i weithredu yn yr Almaen pum canrif yn ddiweddarach. Yr argymell mwyaf amlwg a gymerodd y Natsïaid yn y cyswllt hwn yw saith awgrym eithafol Luther o sut i ddelio â'r Iddewon.

Gan edrych yn ôl at beth oedd Luther wedi dweud am sut i ddelio â'r Iddewon, cawn ni edrych at yr un digwyddiad sydd yn adlewyrchu dymuniadau Luther y mwyaf – *Kristallnacht*. Gan wybod bod cant hanner o flynyddoedd ers pen-blwydd Luther ar y gorwel, roedd cynlluniau o'r *Volksmission* wedi cysylltu'n agos â Luther.⁸² Nid cyd-ddigwyddiad, felly, mo'r ffaith bod

⁷⁶ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', t. 7.

⁷⁷ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', t. 7.

⁷⁸ Steigmann-Gall, *The Holy Reich: Nazi Conceptions of Christianity*, t. 137.

⁷⁹ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', tt. 7-8.

⁸⁰ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', t. 8.

⁸¹ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 37.

⁸² Klaus Scholder, *The Churches and The Third Reich: Vol.1: 1918-1934* (Llundain: SCM Press, 1965), t. 545.

Kristallnacht wedi cwmpo ar ben-blwydd Luther. Ar y nawfed a'r degfed o Dachwedd 1938, digwyddodd Noson y Gwydr Toredig, pan fu trais yn erbyn Iddewon yr Almaen gan greu chwyrlwynt o ddinistr. O fewn ychydig oriau roedd dros un mil o synagogau wedi cael eu llosgi. Gwnaeth y Natsïaid a nifer o Almaenwyr ddinistrio synagogau gyda bwyell a morthwylion.⁸³ Mewn cannoedd o gymunedau Iddewig, roedd yr SA (*Sturmabteilung*) wedi dechrau cynnu coelcerthi ac wedi fandaleiddio ysgolion a chartrefi Iddewig. Taflwyd llyfrau Iddewig o synagogau a chartrefi a gosodwyd dodrefn yn y coelcerthi. Yn y strydoedd, roedd Iddewon yn cael eu herlid a'u curo. Ymhellach, roedd miloedd o siopau a chartrefi Iddewig wedi cael eu hysbeilio.⁸⁴

Ymosodwyd ar Iddewon ymhob tref yn yr Almaen, o Ferlin i'r trefi lleiaf lle'r oedd Iddewon yn byw. Mewn 24 awr o ymosodiadau, cafodd naw deg un o Iddewon eu lladd. O fewn yr amser hwn, roedd tri deg mil o Iddewon wedi cael eu danfon i wersylloedd llafur.⁸⁵ Gyda'r holl anhrefn yn ystod Kristallnacht, nid oedd gwasanaethau argyfwng wedi ymyrryd o gwbl, dim ond sefyll a gwyllo.

Yr oedd cysylltiad amlwg rhwng Kristallnacht a'r hyn roedd Luther wedi datgan yn *Am yr Iddewon a'u Celwyddau*.

'Dylid llosgi eu synagogau a'u hysgolion...Dylid distrywio'u cartrefi a'u troi allan i fyw fel sipsiwn mewn cytiau ac ysguboriau er mwyn iddynt gofio mai alltudion ydynt...Rhaid cymryd eu Talmwd a'u llyfrau gweddi oddi arnynt...Ni ddylai'r wladwriaeth wneud unrhyw ymdrech i'w hamddiffyn ar y priffyrdd'.⁸⁶

Mae'n bwysig hefyd trafod ymateb yr Eglwys Gristnogol i Kristallnacht. Datganodd yr Esgob Lutheraidd, Martin Sasse, bod Kristallnacht yn 'rhodd arbennig ar ben-blwydd Luther'.⁸⁷ Hynny yw, yr oedd Sasse yn gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng Kristallnacht a gweithiau Luther. Ar ôl Kristallnacht, cyhoeddodd Sasse bamffled oedd yn grynodedb o weithiau gwrth-Semitaidd Luther, o dan y teitl 'Martin Luther ar yr Iddewon: Ymaith â hwy!' Llwyddodd y

⁸³ Martin Gilbert, *Kristallnacht: Prelude to Destruction* (Llundain: Harper Perennial, 2007), t. 15.

⁸⁴ Gilbert, *Kristallnacht*, t. 15.

⁸⁵ Gilbert, *Kristallnacht*, t. 15.

⁸⁶ *Luther, Yr Iddewon a'u Hanwiredd* (Luther's Works, Cyfr 47, t. 267; cyfieithiad Cymraeg: Jones, *Lleisiau o'r Lldw*), t. 90.

⁸⁷ Egil Grisliis, 'Martin Luther and The Jews' *Consensus*, Cyfr 27, Erthygl 5, Rhifyn. 1 (Laurier: Canadian Journal of Public Theology, 2001), <<https://scholars.wlu.ca/cgi/viewcontent.cgi?article=1404&context=consensus>>, (Dyddiad Mynediad 27/02/19), t. 63.

pamffled i gael cylchrediad o ddeng mil o gopiâu.⁸⁸ Yn y rhagair, roedd Sasse wedi cymeradwyo Kristallnacht, enwedig am ei fod wedi digwydd ar ben-blwydd Luther.⁸⁹ Ymhellach, pwysleisiodd Sasse, 'The synagogues in Germany are burning', trwy gymeradwyo geiriau Luther a dweud bod angen i Almaenwyr dalu sylw i ysgrifau Luther, 'the greatest anti-Semite of this time, the warner of his people against the Jews'.⁹⁰

Pumed awgrym Luther yn *Am yr Iddewon a'u Celwyddau* yw na ddylai'r wladwriaeth amddiffyn yr Iddewon ar y priffyrdd.⁹¹ Gweithredwyd hyn gan y llywodraeth Natsïaidd drwy ddatgan nad oedd modd i Iddewon Almaeneg gael trwydded i yrru ar ôl Deddfau Nuremberg (1935), a chymerwyd eu pasbort oddi wrthynt yn ogystal. Rhoddwyd cardiau adnabod iddynt – *Judenkarte*, er mwyn eu hamddifadu o'u dinasyddiaeth lawn Almaeneg a gwneud iddynt fod yn ddinasyddion ail ddosbarth.⁹²

Dywedodd Luther, 'Yr ydym ar fai yn peidio â'u lladd'.⁹³ Roedd y Natsïaid wedi cymryd yr awgrym yma gam ymhellach drwy weithredu'r Ateb Terfynol.⁹⁴ Datganodd Luther bod angen gorfodi Iddewon i weithio â'u dwylo er mwyn ennill eu bara beunyddiol oherwydd eu diogi. Gwnaeth y Natsïaid weithredu'r argymhellion hyn rhwng 1933 a 1945 pan ddanfonwyd miloedd o Iddewon i wersylloedd crynhoi i bwrpas llafur caled; yno yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi newynu'n ddifrifol a marw.⁹⁵ Y gwersylloedd crynhoi oedd y cam cyntaf, ond yr ail gam oedd gwersylloedd difa. Gwnaeth chwe miliwn o Iddewon farw yn y gwersylloedd crynhoi/difa o dan lywodraeth y Natsïaid; nid yw'r ffigur yma yn cynnwys y miloedd a fu farw o newyn a chlefyd mewn getoau Iddewig.⁹⁶

Gellir dadlau bod gweithiau Luther wedi cefnogi llywodraeth awdurdodaidd ac roedd Luther ei hun wedi helpu i sicrhau bod Almaenwyr yn dilyn yr unbeniaid hyn. Dywedodd Hitler yn un o'i areithiau: 'Luther, if he could be with us, would give us his blessing'.⁹⁷ Dengys hyn sut

⁸⁸ Martin Hauger, 'Martin Luther and the Jews: How Protestant Churches in Germany Deal with the Reformer's Dark Side', *Theology Today*, Cyfr. 74, Rhifyn. 3 (Hannover: Sage Publications, Ltd, 2017), < <https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=ea195575-4cb2-4dbc-84a8-62d57e5c012a%40pdc-v-sessmgr05> >, (Dyddiad Mynediad 12/02/19) tt. 225-234.

⁸⁹ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', tt. 8-9.

⁹⁰ Daniel J. Goldhagen, *Hitler's Willing Executioners: Ordinary Germans and the Holocaust* (Llundain: Abacus, 1997), t. 265.

⁹¹ Jones, *Lleisiau o'r Llundw*, t. 90.

⁹² Falk, *The Jew in Christian Theology*, tt. 70-71.

⁹³ *On the Jews and their Lies*, Luther's Works, Cyfr. 47, t. 267.

⁹⁴ Paras, 'The Darker Side of Martin Luther', t. 6.

⁹⁵ Falk, *The Jew in Christian Theology*, tt. 70-71.

⁹⁶ Norman Cohn, *Warrant for Genocide* (Ann Arbor: Brown University, Scholars Press, 1981), t. 12.

⁹⁷ Peter F. Wiener, *Martin Luther: Hitler's Spiritual Ancestor* (Cranford, New Jersey: American Atheist Press, 1999), tt. ix-x.

roedd Hitler yn gallu defnyddio geiriau Luther i atgyfnerthu ei ddymuniadau ei hun. O ganlyniad, gellir gweld Luther fel esiampl - mewn geiriau ac mewn gweithred – o'r modd y gwnaethpwyd y mudiad Natsïaidd yn bosibl. *Bonis exemplis, magis impetramus, quam bonis verbis* – ‘a good example achieves more than good words’, ond mae esiampl ddrwg yn ogystal.⁹⁸

3.6: Yr Eglwys Brotestannaidd yn y Trydydd Reich

Yn wyneb hil-laddiad y Natsïaid, yr oedd angen i'r eglwysi Protestannaidd yn yr Almaen ddod i delerau gyda'u hymrwymiad i gyfundrefn y Natsïaidd ac i'r gwrth-Semitiaeth wleidyddol a chrefyddol a oedd wedi sefydlu'n gadarn yn ddysgeidiaeth yr Eglwys.⁹⁹ Roedd arweinyddion y Blaid Natsïaidd, pob carfan o'r mudiad Cristnogol yn yr Almaen, ac elfennau ym mhrif fudiadau'r Almaen rhwng 1933 a 1945 wedi edrych at Luther fel arloeswr cenedligrwydd yr Almaen. O ran hunaniaeth ethnig a phurdeb ethnig yr oeddent yn credu bod hyn yn angenrheidiol o ran goroesiad cenedlaethol, fel diwygwyr Cristnogaeth Almaeneg, fel sylfaenydd cymuned ethnig Almaeneg cenedlaethol (*Volksgemeinschaft*).¹⁰⁰

Roedd y flwyddyn 1933 yn llawn cyd-ddigwyddiadau Protestannaidd a Sosialaidd Cenedlaethol. Ond ai cyd-ddigwyddiad oeddent mewn gwirionedd? Roedd dathliad jiwbilf 450fed Luther, y synod unedig o Eglwys Brotestannaidd yr Almaen a'r flwyddyn gyntaf o'r Trydydd Reich wedi cael eu hystyried gan rai fel rhagluniaeth a chyflawniad o ddelfryd Luther.¹⁰¹ Yn ystod y Trydydd Reich, Protestaniaid oedd 60% o boblogaeth yr Almaen. Roedd nifer o'r eglwysi hyn wedi cefnogi gwrth-Semitiaeth y Natsïaid, ac wedi gallu defnyddio geiriau Luther fel cadarnhad, cyfiawnhad a chefnogaeth.

Roedd 'Blwyddyn Luther' yn ddigwyddiad Cenedlaethol ar raddfa eang. Pregethodd Hans Schemm yn Hamburg ar achlysur pen-blwydd Luther ar y thema, 'Our religion is Christ; our

⁹⁸ Falk, *The Jew in Christian Theology*, t. 71.

⁹⁹ Ursula Rudnick, 'Early Modern Hate Speech – Martin Luther's Anti-Semitism Responses and Reactions', Cyfr. 67, Rhifyn. 2 (Cross Currents, 2017), <<https://web-b-ebsscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=062f7276-25b4-48b6-b5d7-9e892b1f30b9%40pdc-v-sessmgr06>>, (Dyddiad Mynediad 13/02/19), t. 427.

¹⁰⁰ Carter C. Guy, 'Martin Luther in the Third Reich: Recent Research on Luther as Iconic Force in Hitler's Germany', Cyfr. 12, Rhifyn. 1 (Gettysburg: Seminary Ridge Review, 2009), <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/225215478/fulltextPDF/6E5955C5C4A549D3PQ/1?accountid=130472>>, (Dyddiad Mynediad 15/04/19), t. 57.

¹⁰¹ Klaus Scholder, *The Churches and The Third Reich: Vol. 2: The Year of Disillusionment 1934: Barmen and Rome* (Llundain: SCM Press, 1988), t. 227.

politics is Fatherland'.¹⁰² Gan bwysu a mesur, a yw agweddau negyddol Luther yr un peth â rhai Hitler, ynteu a yw un yn wrth-Iddewig a'r llall yn wrth-Semitaidd, gellir dadlau er rhesymau crefyddol oedd prif fotif Luther am ysgrifennu yn erbyn yr Iddewon, 'bluntly, Martin Luther was an anti-semite'.¹⁰³ Wnaeth Heinrich Bornkamm, ffigwr dylanwadol o fewn Cristnogaeth Brotestannaidd yng nghyfnod y Natsïaidd wedi pregethu *Volk und Rasse bei Martin Luther* (Volk a Hil yn Martin Luther) yn 1933.¹⁰⁴ Yma mae Bornkamm yn annerch y mater o Volk a hil gyda phersbectif Luther. Mae Bornkamm yn dadlau o ran y cysyniad o Volk a hil, er nid oedd Luther yn meddwl am yr Iddewon ar sail hil, yn realiti roedd y cysyniad o hil yn adnabyddadwy iddo ac roedd Luther yn ymwybodol o'r 'biological basic elements in the structure of mankind'.¹⁰⁵

Dyma Bornkamm yn ceisio crynhoi tybiaethau a motifau Luther o ran yr 'Cwestiwn Iddewig'. Mae Bornkamm yn cynnig dehongliad o *Judenschriften* Luther a oedd yn baralel i gysyniadaeth y Natsïaidd o Volk a hil.¹⁰⁶ Dadleuodd roedd Luther yn casáu'r Iddewon oherwydd 'foreignness of race'.¹⁰⁷ Eglurodd Bornkamm, roedd Luther yn credu fod angen i'r awdurdodau ymyrryd oherwydd cabledau cyhoeddus yr Iddewon.¹⁰⁸ Felly mai ymyrraeth wladwriaeth y Natsïaidd a'u rhesymau tu ôl eu polisiau gwrth-Semitaidd oedd amddiffyn yr Volk oddi wrth gabledau'r Iddewon.¹⁰⁹

Er nid oedd Luther yn deall y cysyniad o hil mewn yr un ffordd a'r Almaenwyr yn yr 1930au, roedd gan Luther syniad o'r fath. Yn farn Bornkamm, roedd Luther yn ymwybodol o'r ymwybyddiaeth *völkisch* (mae'r term *völkisch* yn cyfeirio at ideoleg genedlaetholgar Rhamantaidd) a oedd yn bresennol yn yr Oesoedd Canol.¹¹⁰ Yn syml, mae Bornkamm yn egluro roedd agwedd gwrth-Iddewig Luther yn dangos elfennau o agweddau *völkisch*. Er diffyg cyfeirnod o hil yr Iddewon yn ysgrifau Luther, i Bornkamm, roedd y cysyniad o hil yn bodoli iddo, er bod yn gudd.¹¹¹

¹⁰² Steigmann-Gall, *Holy Reich*, t. 24.

¹⁰³ Alon Goshen-Gottstein, *Luther the Anti-Semite: A Contemporary Jewish Perspective* (Minneapolis: Fortress Press, 2018) t. xiii.

¹⁰⁴ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 151.

¹⁰⁵ Probst, *Demonizing the Jews*, tt. 151-152.

¹⁰⁶ Heinrich Bornkamm, 'Volk und Rasse bei Martin Luther', yn *Volk, Staat, Kirche: Ein Lehrgang der Theologischen Fakultät Gießen*, 5-19 (Gießen: Alfred Töpelmann, 1933), tt. 5-6.

¹⁰⁷ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 152.

¹⁰⁸ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 152.

¹⁰⁹ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 153.

¹¹⁰ Probst, *Demonizing the Jews*, t. 153.

¹¹¹ Probst, *Demonizing the Jews*, tt. 154-155.

Wrth edrych nôl ar 1939, awgrymodd Martin Redecker bod Natsïaeth yn fynegiant o Lutheriaeth ac mai yno y tarddodd prif themâu Almaeneg megis rhyddid ac ewyllys rhydd.¹¹² Awgrymodd Siegfried Leffler bod ei chysyniad o Dduw wedi anfon Luther ac Hitler at bobl yr Almaen a bod Hitler wedi cwblhau'r diwygiad crefyddol a diwylliannol a gychwynnodd Luther.¹¹³

‘In Martin Luther we received the spiritual foundations of German Christianity...Lord has granted us through Adolf Hitler – to meet the challenge...We cannot imagine Adolf Hitler without Martin Luther, and vice versa: without the appearance of Adolf Hitler four hundred years later, Martin Luther’s act would not have been fulfilled its total significance for Germany’.¹¹⁴

Yn 1941, roedd Hitler wedi datgan ei fwriad i ddiwygio'r Eglwys Efengylaidd er mwyn i'r eglwys gyd-fynd â'r wladwriaeth. Roedd prif arweinydd y mudiad, Reinhardt Krause, wedi traddodi araith a oedd yn sôn am ‘the tasks of a Reich Church in the Spirit of Dr. Martin Luther’.¹¹⁵ Gwnaeth Lutheriaid trwy gydol yr Almaen gofleidio'r syniad yma, ac yn gyffredinol nid oedd y mwyafrif ohonynt wedi gwrthwynebu Hitler a'i bolisïau.¹¹⁶ Mae William Shirer yn disgrifio Luther fel ‘passionate anti-Semite and a ferocious believer in absolute obedience to political authority’.¹¹⁷ Y dylanwad yma ar Lutheriaid a wnaeth arwain nifer ohonynt i dderbyn gwrth-Semitaeth y Natsïaidd ac i ufuddhau i Hitler a'r awdurdodau, yn unol fel roedd Luther wedi pregethu.¹¹⁸

3.7: Casgliad y Bennod

Mae'r bennod yma wedi cyfrannu'n helaeth at y traethawd hir gan dangos y cysylltiadau rhwng Luther a Hitler, yn y modd sut roedd Hitler a'u Natsïaidd wedi gallu manipwleiddio Luther a'i waith fel cyfiawnhad o eu rhethreg gwrth-Semitaidd a oedd wedi ennill cefnogaeth yr Eglwys. Er hyn, rhaid cydnabod roedd prif fotif Hitler dros erlid yr Iddewon oedd am resymau hiliol. Prif ffocws Hitler oedd sicrhau gwlad Ariaidd gryf, gyda Volk pur heb aflwydd y wlad, yr

¹¹² Susannah Heschel, *The Aryan Jesus* (New Jersey: Princeton University Press, 2008) t. 173-74.

¹¹³ Munson, ‘Christianity, Antisemitism, and the Holocaust’, t. 7.

¹¹⁴ Mary M. Solberg, *A Church Undone: Documents from The German Christian Faith Movement: 1932-1940* (Minneapolis: Fortress Press, 2015), tt. 353-57.

¹¹⁵ Eliot B. Wheaton, *Prelude to Calamity: The Nazi Revolution 1933-35* (Garden City, Efrog Newydd: Doubleday and Company, Inc, 1968), t. 365.

¹¹⁶ Paras, ‘The Darker Side of Martin Luther’, t. 11.

¹¹⁷ William L. Shirer, *The Rise and Fall of the Third Reich* (Efrog Newydd: Simon and Schuster, 1960), t. 236.

¹¹⁸ Paras, ‘The Darker Side of Martin Luther’, t. 11.

Iddewon. Dyma beth oedd wedi gyrru'r erledigaeth systematig yn erbyn yr Iddewon rhwng 1933 a 1945. Yn wir, nid oedd Hitler wedi angen defnyddio Luther i weithredu eu rhethreg gwrth-Semitaidd, ond wnaeth Hitler weld cyfle i ennyn cefnogaeth ymhellach wrth ddefnyddio Luther fel ffigwr a oedd yn ategu'r casineb tuag at yr Iddewon.

Pennod 4

Casgliad

Mae'r traethawd hir yma wedi ceisio dangos swyddogaeth Luther o ran ei dylanwad ar y Trydydd Reich, hynny yw, sut roedd Luther a'i ysgrifeniadau ar yr Iddewon wedi cael ei adfywio fel arf i gyfiawnhau gwrth-Semitiaeth y Natsïaid. Mae pennod dau wedi dadansoddi meddyliau gwreiddiol Luther ar yr Iddewon wrth asesu sut roedd ei agwedd negyddol wedi gwaethygu dros amser. Ymhellach, mae pennod tri wedi archwilio sut yn union roedd Hitler a'u Natsïaid wedi cam-ddefnyddio Luther fel ffigwr dylanwadol yn hanes yr Almaen i'w fantais eu hun o geisio rhesymoli'r erledigaeth yn erbyn yr Iddewon.

O ran dod i gasgliad, gellir dadlau bod Luther yn gweld yr Iddewon fel gelyn i Iesu lle roedd Hitler yn gweld yr Iddewon fel gelyn yr Almaen.¹¹⁹ Er hyn, yn y ddau achos yma, yr Iddewon oedd y dioddefwyr. Mae'r Iddewon wedi cael eu herlid trwy gydol hanes Cristnogaeth, gyda'r uchafbwynt o erledigaeth yn ystod yr Holocaust.¹²⁰ Gan archwilio pam y gwnaeth Luther ysgrifennu yn erbyn yr Iddewon, hynny yw rhesymau crefyddol dros ei rhwystredigaeth gyda'r Iddewon, nid oes modd cyfiawnhau agweddau ac ysgrifau ffiaidd Luther gyda rhesymau crefyddol. Yn wir, wrth ddefnyddio 'rhesymau crefyddol' fel cyfiawnhad o bregethu casineb, mae'n rhoi esgus i bobl defnyddio'r un ddadl am eu gweithredoedd atgas. Er bod gwaith Luther wedi cael ei ysgrifennu o fewn cyd-destun gwrth-Iddewig, nid oes amheuaeth bod Luther wedi croesi'r ffin o wrth-Semitiaeth.

Mae natur gymhleth diwinyddiaeth, hiliaeth a gwrth-Semitiaeth Gristnogol yn ei gwneud bron yn amhosibl gwahaniaethu un oddi wrth y llall, oherwydd bod pob un yn gysylltiedig â'i gilydd. Roedd natur gweithiau Luther yn ddiwinyddol ond nid oes amheuaeth bod Luther wedi annog ymosodiadau yn erbyn yr Iddewon. Yn wir, pwysleisia Kaufmann 'Lutheran' could also be synonymous with 'anti-Semitic'.¹²¹ Roedd Luther yn glir wedi defnyddio stereoteipiau canoloesol i dargedu'r Iddewon ar lefelau mwy na chrefydd, a gwelwn y raddfa negyddol yn datblygu'n fwy eithafol. Roedd gwaith Luther ar yr Iddewon ar agor i ddehongliad ac oherwydd bod ei waith yn dangos agweddau o wrth-Semitiaeth, roedd Hitler wedi gallu manipwleiddio gwaith Luther i gyfiawnhau a chefnogi gwrth-Semitiaeth y Natsïaid. Er hyn, a ydym yn gallu

¹¹⁹ Olsen, 'Luther and Hitler', t. 45.

¹²⁰ Olsen, 'Luther and Hitler', t. 45.

¹²¹ Thomas Kaufmann, *Luthers 'Judenschriften' Luther's Writings on the Jews, an Essay on their Historical Contextualisation* (Tübingen: Mohr-Siebeck, 2011), t. 137.

priodoli Luther i wrth-Semitiaeth y Natsïaid? Nid oes modd dweud bod gwaith Luther wedi cymell yr hil-laddiad o chwe miliwn Iddewon. Mae Richard Marius yn dadlau na allwn ddod o hyd i'r cysyniad yma yn waith Luther i liniaru penderfyniad Hitler i ddifodi'r Iddewon.¹²²

Ynglŷn â'r ddadl i ba raddau yr oedd Luther wedi dylanwadu ar y Natsïaid, mae Robert Waite yn dadlau bod gan Luther ac Hitler agweddau negyddol gwahanol a byddai Luther wedi condemnio Hitler.¹²³ Er hyn, mae Waite yn cytuno fod Luther 'unwittingly helped pave the way for Hitler'.¹²⁴ Wrth geisio olrhain llinell o Luther i Auschwitz, mae Steven Katz yn pwysleisio 'it was not until after Hitler's radical revision of antisemitism that Luther became the putative godfather of genocide'.¹²⁵ Hynny yw, roedd Hitler a'i Natsïaid wedi defnyddio *Judenschriften* Luther fel rhan o'u harfdd i warantu a dilysu gwrth-Semitiaeth Natsïaidd.

Gellir dadlau felly bod agweddau negyddol Luther yn wahanol i rai Hitler, ac o ganlyniad, nid yw barn Luther yn gallu cael ei dehongli i awgrymu y dylai rhywbeth fel yr Ateb Terfynol ddigwydd. Yn lle roedd y gyfundrefn Natsïaidd wedi defnyddio ysgrifeniadau Luther yn erbyn yr Iddewon mewn modd o geisio cyfreithloni gwrth-Semitiaeth, fel ffordd o baratoi cymdeithas yr Almaen am yr erledigaeth systematig o'r Iddewon a oedd wedi arwain at yr Ateb Terfynol.¹²⁶

¹²² Richard Marius, *Luther* (London: Quartet Books Limited, 1975), t. 242.

¹²³ Robert G. L. Waite, *The Psychopathic God Adolf Hitler* (New York: Basic Books, Inc, 1977), t. 249.

¹²⁴ Waite, *The Psychopathic God Adolf Hitler*, t. 249.

¹²⁵ Steven. T. Katz, *The Holocaust in Historical Context, Volume I: The Holocaust and Mass Death before The Modern Age* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 1994), t. 392.

¹²⁶ David H. Lindquist, 'Luther's Antisemitism in Historical Context: A Necessary Discussion for Christian Educators', *Journal of Research on Christian Education*, Cyfrol. 22, Rhifyn. 1 (Indiana: Taylor & Francis Ltd, 2013), <<https://web-a-ebshost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=6&sid=f980e065-b151-4bea-b76c-064f65f9be8a%40sdc-v-sessmgr02>>, (Dyddiad Mynediad 22/04/19), t. 104.

Llyfryddiaeth

Gwaith Luther:

Against the Sabbatarians: Letter to a Good Friend, Luther's Works (Philadelphia: Fortress Press, 1971).

Luther, Yr Iddewon a'u Hanwiredd (Luther's Works, cyfieithiad Cymraeg: Jones, Gareth L., *Lleisiau o'r Lladw: Her yr Holocaust i'r Cristion* (Dinbych: Gwasg Gee, 1994).

Luther, *Vom Schem Hamphoras und vom Geschlecht Christi* yn WA 53 (llyfr Probst, Christopher J., *Demonizing the Jews: Luther and the Protestant Church in Nazi Germany* (Indiana: Indiana University Press, 2012).

On the Jews and Their Lies, Luther's Works (Philadelphia: Fortress Press, 1962).

On the Jews and Their Lies, Luther's Works (Philadelphia: Fortress Press, 1971).

That Jesus Christ was born a Jew, Luther's works (Philadelphia: Fortress Press, 1962).

Astudiaethau Perthnasol:

Bornkamm, Heinrich, 'Volk und Rasse bei Martin Luther', yn *Volk, Staat, Kirche: Ein Lehrgang der Theologischen Fakultät Gießen*, 5-19 (Gießen: Alfred Töpelmann, 1933).

Bourrie, Mark, 'Hanging the Sin Eater: International Criminal Law's Failure to Engage with the Role of Media in a Criminal State', Cyfr. 43, Rhifyn. 4 (Toronto: Canadian Journal of Communication, 2018), <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/2155639703/fulltextPDF/DEA6C5D2D40E44B4PQ/1?accountid=130472>> ,(Dyddiad Mynediad 10/02/19).

Cohn, Norman, *Warrant for Genocide* (Ann Arbor: Brown University, Scholars Press, 1981).

Cohn-Sherbok, Dan, *Anti-Semitism: A History* (Stroud: Sutton Publishing Limited, 2002).

Cohn-Sherbok, Dan, *The Paradox of Anti-Semitism* (Llundain: Continuum International Publishing Group, 2006).

Dawidowicz, Lucy, *The War Against the Jews* (Harmondsworth: Penguin Books, 1987).

Falk, Gerhard, *The Jew in Christian Theology: Martin Luther's Anti-Jewish Vom Schem Hamphoras, Previously Unpublished in English, and other Milestones in Church Doctrine Concerning Judaism* (North Carolina: McFarland & Company Inc Publishers, 1992).

Farmer, Alan, *Anti-Semitism and The Holocaust* (Llundain: Hodder & Stoughton, 1998).

German Propaganda Archive, 'Schulz & Frercks: Why the Aryan Law? A Contribution to the Jewish Question', <<https://research.calvin.edu/german-propaganda-archive/arier.htm>>, (Dyddiad Mynediad 12/02/19) yn E. H. Schulz and R. Frercks, *Warum Arierparagraph? Ein Beitrag zur Judenfrage* (Berlin: Verlag Neues Volk, 1934).

German Propaganda Archive, 'Kurt Hilmar Eitzen: Ten Responses to Jewish Lackeys', <<https://research.calvin.edu/german-propaganda-archive/arier.htm>>, (Dyddiad Mynediad 12/02/19) yn Kurt Hilmar Eitzen, 'Zehn Knüppel wider die Judenknechte' *Unser Wille und Weg* (6) 1936.

Gilbert, Martin, *Kristallnacht: Prelude to Destruction* (Llundain: Harper Perennial, 2007).

Goldhagen, Daniel J., *Hitler's Willing Executioners: Ordinary Germans and the Holocaust* (Llundain: Abacus, 1997).

Gottstein-Goshen, Alon, *Luther the Anti-Semite: A Contemporary Jewish Perspective* (Minneapolis: Fortress Press, 2018).

Grisar, Hartmann, *Luther*, Cyfr. V (Llundain: Kegan Paul, Trench, Trübner & CO. LTD, 1916).

Grislis, Egil, 'Martin Luther and The Jews' *Consensus*, Cyfr. 27, Erthygl 5, Rhifyn. 1 (Laurier: Canadian Journal of Public Theology, 2001), <<https://scholars.wlu.ca/cgi/viewcontent.cgi?article=1404&context=consensus>>, (Dyddiad Mynediad 27/02/19).

Guy, Carter C., 'Martin Luther in the Third Reich: Recent Research on Luther as Iconic Force in Hitler's Germany', Cyfr. 12, Rhifyn. 1 (Gettysburg: Seminary Ridge Review, 2009), <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/225215478/fulltextPDF/6E5955C5C4A549D3PQ/1?accountid=130472>>, (Dyddiad Mynediad 15/04/19).

Hauger, Martin, 'Martin Luther and the Jews: How Protestant Churches in Germany Deal with the Reformer's Dark Side', *Theology Today*, Cyfr. 74, Rhifyn. 3 (Hannover: Sage

Publications, Ltd, 2017), < <https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=ea195575-4cb2-4dbc-84a8-62d57e5c012a%40pdc-v-sessmgr05>>, (Dyddiad Mynediad 12/02/19).

Heschel, Susannah, *The Aryan Jesus* (New Jersey: Princeton University Press, 2008).

Hilberg, Raul, *The Destruction of The European Jews* (Efrog Newydd: Holmes & Meier Publications Inc, 1985).

Hitler, Adolf, *Mein Kampf* (Boston and Efrog Newydd: Houghton Mifflin Company, 1971).

Hitler, Adolf, *Mein Kampf* (Efrog Newydd & Llundain: Houghton Mifflin Company, 1969).

Jones, Gareth L., *Lleisiau o'r Lladw: Her yr Holocost i'r Cristion* (Dinbych: Gwasg Gee, 1994).

Katz, Steven T., *The Holocaust in Historical Context, Volume I: The Holocaust and Mass Death before The Modern Age* (Efrog Newydd: Oxford University Press, 1994).

Kaufmann, Thomas, *Luthers 'Judenschriften' Luther's Writings on the Jews, an Essay on their Historical Contextualisation* (Tübingen: Mohr-Siebeck, 2011).

Kaufmann, Thomas, *Luthers Juden* (Stuttgart: Reclam, 2014) cyfeithiad Brooks Schramm.

Keith, Graham, *Hated without a Cause? A Survey of Anti-Semitism* (Carlisle: Paternoster Press, 1997).

Lehmann, Hartmut, 'Luther also Nationalheld im 19. Jahrhundert', *Luther* 55/2, (1984) yn Carter C. Guy, 'Martin Luther in The Third Reich: Recent Research on Luther as Iconic Force in Hitler's Germany', Cyfr. 12, Rhifyn. 1 (Gettysburg: Seminary Ridge Review, 2009), <<https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/225215478/fulltextPDF/E442907E36134C12PQ/1?accountid=130472>>, (Dyddiad Mynediad 18/02/19).

Lewin, Reinhold, *Luthers Stellung zu den Juden. Ein Beitrag zur Geschichte der Judez während des Reformationszeitalters*, Neue Studien zur Geschichte der Theologie und Kirche 10 (Aalen: Scientia Verlag, 1973, 1st. Gol, 1911) (Cyfeithiad Saesneg: Eric W. Gritsch, *Martin Luther's Anti-Semitism: Against His Better Judgment*).

Lindquist, David H., 'Luther's Antisemitism in Historical Context: A Necessary Discussion for Christian Educators', *Journal of Research on Christian Education*, Cyfrol. 22, Rhifyn. 1 (Indiana: Taylor & Francis Ltd, 2013), <<https://web-a-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/225215478/fulltextPDF/E442907E36134C12PQ/1?accountid=130472>>, (Dyddiad Mynediad 18/02/19).

com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=6&sid=f980e065-b151-4bea-b76c-064f65f9be8a%40sdc-v-sessmgr02>, (Dyddiad Mynediad 22/04/19).

Marius, Richard, *Luther* (Llundain: Quartet Books Limited, 1975).

Mueller, Thomas S., *Adolf Hitler and Martin Luther: Anti-Semitism, Nazi Propaganda and The German Lutheran Church* (Ph.D. Cyhoeddedig, ProfWriter LLC, 2013).

Munson, Henry, 'Religions: Christianity, Antisemitism, and The Holocaust', Cyfr. 9, Rhifyn. 1, 26 (Orono: University of Maine, 2018), <<https://www.mdpi.com/2077-1444/9/1/26/htm>>, (Dyddiad Mynediad 05/02/2019).

Nessan, Craig L., 'Rethinking Religion: Luther Against The Jews: Repudiating a Reformation Legacy', Cyfr. 32, Rhifyn. 3 (Tikkun: Duke University Press, 2017), <<https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=7435932d-e68f-4f11-bda1-7fc15d4fc81c%40pdc-v-sessmgr01>>, (Dyddiad Mynediad 16/10/18).

Oberman, Heiko, *Roots of Anti-Semitism in The Age of Renaissance and Reformation* (Augsburg: Fortress Publishing, 1983).

Olsen, Daphne M., 'Luther and Hitler: A Linear Connection between Martin Luther and Adolf Hitler's Anti-Semitism with a Nationalistic Foundation' *Master of Liberal Studies Theses* (Florida: Rollins College, 2012), <<https://scholarship.rollins.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1019&context=mls>>, (Dyddiad Mynediad 13/02/19).

Paras, Emily, 'The Darker Side of Martin Luther: Constructing the Past', Erthygl 4, Cyfr. 9, Rhifyn. 1 (Illinois: Illinois Wesleyan University, 2008), <<https://digitalcommons.iwu.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1012&context=constructing>>, (Dyddiad Mynediad 07/02/2018).

Poliakov, Leon, *The History of Anti-Semitism, Vol. 1* (Pennsylvania: Vanguard Press, 1975),

Probst, Christopher J., *Demonizing the Jews: Luther and the Protestant Church in Nazi Germany* (Indiana: Indiana University Press, 2012).

Roynesdal, Olaf, *Martin Luther and The Jews* (Ph.D. Cyhoeddedig, Marquette University, 1986).

Rudnick, Ursula, 'Early Modern Hate Speech – Martin Luther's Anti-Semitism Responses and Reactions', Cyfr. 67, Rhifyn. 2 (Cross Currents, 2017), <<https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=062f7276-25b4-48b6-b5d7-9e892b1f30b9%40pdc-v-sessmgr06>>, (Dyddiad Mynediad 13/02/19).

Scholder, Klaus, *The Churches and The Third Reich: Vol. 1: 1918-1934* (Llundain: SCM Press, 1965).

Scholder, Klaus, *The Churches and The Third Reich: Vol. 2: The Year of Disillusionment 1934: Barmen and Rome* (Llundain: SCM Press, 1988).

Schramm, Brooks, 'Luther's Schem Hamphoras', *Dialog: A Journey of Theology*, Cyfr. 56, Rhifyn. 2 (Gettysburg: Wiley-Blackwell, 2017), <<https://web-b-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=2&sid=9fd49f19-0c24-477e-bbc3-17b6378665d2%40sessionmgr120>> , (Dyddiad Mynediad 05/11/2018).

Shirer, William L., *The Rise and Fall of the Third Reich* (Efrog Newydd: Simon and Schuster, 1960).

Solberg, Mary M, *A Church Undone: Documents from The German Christian Faith Movement: 1932-1940* (Minneapolis: Fortress Press, 2015).

Steigmann-Gall, Richard, *The Holy Reich: Nazi Conceptions of Christianity: 1919-1945* (Cambridge: Cambridge University Press, 2004).

Waite, Robert G. L., *The Psychopathic God Adolf Hitler* (Efrog Newydd: Basic Books, Inc, 1977).

Wheaton, Eliot B., *Prelude to Calamity: The Nazi Revolution 1933-35* (Garden City, Efrog Newydd: Doubleday and Company, Inc, 1968).

Wiener, Peter F., *Martin Luther: Hitler's Spiritual Ancestor* (Cranford, New Jersey: American Atheist Press, 1999).